PRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

DATGANIAD O GYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026

Cynnwys

Adroddiad Naratif ... 3
Datganiad o Gyfrifoldebau ... 23
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys ... 24
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ... 29
Mantolen ... 30
Cronfa bensiwn yr heddlu ... 31
Nodiadau i'r cyfrifon ... 32
1. **Polisïau cyfrifyddu** ... 32
2. **Addasiadau cyfnod blaenorol** ... 36
3. **Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond heb eu mabwysiadu eto** ... 36
4. **Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu** ... 36
5. **Rhagdybiaethau a phrif ffynonellau eraill o ansicrwydd amcangyfrif** ... 37
6. **Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd** ... 37
7. **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** ... 38
8. **Offerynnau ariannol gan gynnwys natur a maint y risgiau sy'n codi** ... 38
9. **Dyledwyr** ... 38
10. **Credydwyr** ... 38
11. **Trefniadau cydweithredol** ... 39
12. **Taliadau cydnabyddiaeth swyddogion** ... 46
13. **Costau archwilio allanol** ... 50
14. **Partïon cysylltiedig** ... 50
15. **Buddion terfynu** ... 51
16. **Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio** ... 51
17. **Rhwymedigaethau digwyddiadol** ... 59

Geirfa termau ... 61

Adroddiad Naratif

1. Cyflwyniad

Crëwyd dwy gorfforaeth undyn o fewn pob ardal heddlu gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011; y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl. Mae gan bob un gylch gorchwyl statudol clir ac ar wahân.

Mae sefydlu'r ddwy gorfforaeth undyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff gynhyrchu ei ddatganiad o gyfrifon ei hun ac i'r Comisiynydd gynhyrchu datganiad o gyfrifon ar gyfer grŵp a chronfa bensiwn yr heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn cynhyrchu cyfrifon ar wahân ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

Cafodd Mr Dafydd Llywelyn ei ail-ethol am drydydd tymor yn gomisiynydd ym mis Mai 2024. Dechreuodd Dr Richard Lewis swydd y Prif Gwnstabl ym mis Rhagfyr 2021, gan ddychwelyd i'r heddlu ar ôl dwy flynedd fel Prif Gwnstabl Heddlu Cleveland. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i gydweithio'n adeiladol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i gymunedau ardal Dyfed-Powys. Rhoddodd Dr Richard Lewis y gorau i swydd y Prif Gwnstabl ar 16 Mehefin 2025, gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl, Ifan Charles, yn cael ei benodi'n Brif Gwnstabl Dros Dro o'r dyddiad hwnnw. Penodwyd Ifan Charles yn Brif Gwnstabl parhaol wedi hynny ar 7 Hydref 2025.

Mae'r adroddiad naratif hwn yn amlinellu'r prif amcanion, strategaethau a risgiau y mae Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu. Mae'n rhoi sylwebaeth ar sut y defnyddiwyd adnoddau i gyflawni canlyniadau dymunol yn unol â'r amcanion a'r strategaethau hyn.

Ei nod yw rhoi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad ariannol a gweithredol. Gellir defnyddio hyn i roi cyd-destun i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys gyda'r datganiadau ariannol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth y darllenydd. Mae'r adroddiad naratif yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Trosolwg sefydliadol a'r amgylchedd allanol
- Llywodraethu a pherfformiad
- Y Model Sefydliadol
- Perfformiad ariannol
- Risgiau, cyfleoedd a'r rhagolygon ariannol tymor canolig
- Diwygio'r heddlu
- Sail paratoi a chyflwyno

2 Trosolwg sefydliadol a’r amgylchedd allanol

Gan ymestyn dros 4,188 milltir sgwâr, Heddlu Dyfed-Powys yw’r heddlu mwyaf yn ddaearyddol yng Nghymru a Lloegr. Gyda 8,500 o filltiroedd o ffyrdd, dau borthladd mawr, 350 milltir o arfordir ac ardaloedd helaeth o gefn gwlad, mae’r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol o ran galw ac adnoddau.

Mae’r boblogaeth breswyl o tua 524,300 wedi’i gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig helaeth, trefi gwyliau a threfi marchnad yn ogystal ag ardaloedd mwy poblog. Mae atyniad twristiaeth yn cyflwyno gofynion unigryw gyda nifer fawr o dwristiaid yn ymweld â threfi allweddol. Mae hyn yn cyflwyno ei oblygiadau ei hun ar gyfer troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phlismona ffyrdd.

Mae 42% o drigolion ardal Dyfed-Powys yn siarad y Gymraeg o’i gymharu â’r cyfartaledd cenedlaethol o 33%. Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl ill dau wedi ymrwymo i sicrhau bod y gweithlu’n gynrychioliadol o’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu fel bod aelodau’r cyhoedd, pryd bynnag y bo modd, yn cael y cyfle i gyfathrebu yn y Gymraeg.

Mae plismona yn faes polisi nad yw wedi’i ddatganoli yng Nghymru, gyda phwerau wedi’u cadw i Lywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae llawer o’r gwaith a wneir ar draws y pedair sir yn cael ei wneud, yn briodol, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, awdurdodau tân, byrddau iechyd lleol, a llawer o bartneriaid eraill gan gynnwys y trydydd sector. Mae Heddlu Dyfed-Powys, ynghyd â’r Comisiynydd a’i swyddfa, hefyd yn cydweithio â heddluoedd eraill Cymru ar draws ystod eang o swyddogaethau plismona a chymorth busnes gan gynnwys ymateb arfog ac ymateb i fygythiad troseddau cyfundrefnol a therfysgaeth.

Mae pwysau’n parhau i godi o natur newidiol troseddau a digwyddiadau ac yn fwy diweddar o amrywiaeth gymhleth o ganlyniadau ariannol ac economaidd sy’n deillio o’r argyfwng costau byw ac amrywiol wrthdaro sydd wedi effeithio ar economi’r DU. Mae hyn wedi arwain at bwysau sylweddol o ran costau chwyddiant i Heddlu Dyfed-Powys, a olygodd fod angen ymgorffori cynllun lleihau costau gwerth £2.8 miliwn i fantoli cyllideb 2025/2026, er gwaethaf cynnydd o 8.6% i’r dreth gyngor ym Mand D a defnyddio £2.2 miliwn o gronfeydd wrth gefn i fodloni pwysau gwariant untro yn ystod y flwyddyn.

Yn erbyn cefndir ariannol heriol, mae gofynion gweithredol yn parhau i dyfu a dod yn fwyfwy cymhleth. Mae’r heddlu’n parhau i ddatblygu’n gyflym i ymateb i risgiau, bygythiadau a newidiadau newydd mewn technoleg, ac mae llawer ohonynt wedi gofyn am ffyrdd newydd o weithio. Er mwyn sicrhau cyllid y rhaglen Uplift, roedd yn ofynnol i’r heddlu gyrraedd targed cynyddu nifer swyddogion a osodwyd gan y Swyddfa Gartref, trwy gynnal cyfanswm o 1,310 o

swyddogion ym mis Medi 2025 a mis Mawrth 2026. Roedd hefyd angen ehangu nifer y swyddogion sy'n ymgymryd â rolau plismona bro o 33 swydd erbyn mis Mawrth 2026. Cyflawnwyd y ddwy darged hyn yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfnod yr haf yn heriol o ran y galw, ac roedd hyn yn waeth oherwydd yr angen i ddarparu cymorth i heddluoedd eraill gyda'r ymateb cenedlaethol i derfysgoedd a phrotestiadau.

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am osod blaenoriaethau strategol ar gyfer plismona yn ardal Heddlu Dyfed-Powys drwy lunio Cynllun Heddlu a Throseddu, gan sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a bod safonau priodol yn cael eu cyflawni a'u cynnal.

Ar ôl ymgynghori helaeth, lansiodd y Comisiynydd Gynllun Heddlu a Throseddu newydd ym mis Chwefror 2025 yn cwmpasu'r cyfnod 2025 i 2029. Y weledigaeth gyffredinol yw gwella ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys a'r system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd. Mae'r cynllun yn nodi tair blaenoriaeth a chwe egwyddor arweiniol a fydd yn sail i'r ddarpariaeth:

Blaenoriaethau	Egwyddorion arweiniol
Cynorthwyo dioddefwyr ac atal gormesu	Gweithio mewn partneriaeth
Cefnogi cymunedau diogel trwy atal niwed	Ymdrechion a rennir ar gyfer plismona yng Nghymru
Cefnogi system gyfiawnder fwy effeithiol	Llywodraethu ac atebolrwydd
	Cynaliadwyedd
	Ymgysylltu a bod yn llais y gymuned
	Dull pwrpasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Ar ôl ymgysylltu sylweddol â'r gweithlu, partneriaid a'r cyhoedd, gosododd y Prif Gwnstabl flaenoriaethau sefydliadol wedi'u diweddaru ar gyfer yr heddlu mewn dogfen "Ein Cynllun" a ryddhawyd yn 2025. Mae hyn yn cynnwys y blaenoriaethau cyflenwol canlynol:

Blaenoriaethau
Ymateb tosturiol i ddioddefwyr cam-drin domestig a stelcio ac erlid troseddwyr yn ddi-baid
Gwneud Heddlu Dyfed-Powys yn elyniaethus i'r rhai sy'n delio cyffuriau
Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol, ac erlid troseddwyr yn ddi-baid

Mae strategaethau a chynlluniau cyflawni manwl wedi'u datblygu i ategu a chefnogi cyflawniad y Cynllun Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Mae'r cynllun yn seiliedig ar y gwerthoedd canlynol:

- Rydym yn gweithredu gyda dewrder
- Rydym yn trin pawb â pharch ac empathi
- Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r cynllun hefyd yn nodi nifer o alluogwyr ac addewid diwylliannol yr heddlu sy'n nodi ein disgwyliadau gan ein harweinwyr.

3 Llywodraethu a pherfformiad

Llywodraethu

Mae'r trefniadau llywodraethu y mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gweithredu'n unol â nhw yn gymhleth. Mae'r rhain wedi'u hadolygu'n feirniadol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent yn parhau i gael eu cryfhau a'u symleiddio er mwyn sicrhau rheolaeth, goruchwyliaeth a chraffu sefydliadol effeithiol.

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol ar y Cyd yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau ar gyfer llywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, ac mae hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gylch gwaith statudol clir ac ar wahân. Mae'r Comisiynydd yn statudol gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am osod cyllideb flynyddol yr heddlu (gan gynnwys lefel y praesept) a sicrhau bod cyfrif am arian cyhoeddus a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl wedi'i diogelu mewn deddfwriaeth. Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol am reoli, cyfeirio a darparu gwasanaethau plismona gweithredol a ddarperir gan yr heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn atebol yn ôl y gyfraith am arfer pwerau'r heddlu ac i'r Comisiynydd am ddarparu gwaith plismona effeithlon ac effeithiol, rheoli adnoddau a gwariant yr heddlu. Mae'r Prif Gwnstabl yn dal ei swydd o dan y goron ac yn gyfrifol am gynnal heddwch y brenin.

Cyhoeddir datganiad llywodraethu blynyddol ar wahân, ac mae hwn yn rhoi mwy o fanylion am yr amgylchedd rheolaeth fewnol a gwerthusiad o'r trefniadau llywodraethu yn erbyn y saith egwyddor ar gyfer cyflawni llywodraethu da. Disgwylir i bob parti gydymffurfio â'r saith egwyddor a nodir yn y Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn Egwyddorion Nolan, yn ogystal â'r cod moeseg a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona.

Perfformiad

O safbwynt yr heddlu, mae perfformiad yn erbyn amcanion allweddol yn cael ei fonitro a chyflwynir adroddiadau yn lleol ar bob lefel o fewn y sefydliad yn ogystal ag mewn digwyddiadau perfformiad wythnosol, misol a chwarterol yr heddlu a chyfarfodydd Bwrdd Plismona bob pythefnos.

Yn ystod 2025/2026, cofnodwyd cyfanswm o 35,905 o droseddau, o'i gymharu â 37,939 yn 2024/2025 – sy'n cynrychioli gostyngiad o 2,034 o droseddau (5.36%), fel y dangosir yn y tabl canlynol:

Troseddau a gofnodwyd yn ôl math o drosedd	2024/2025	2025/2026	Gwahaniaeth	Gwahaniaeth
	Nifer y troseddau a gofnodwyd	Nifer y troseddau a gofnodwyd	Nifer y troseddau a gofnodwyd	%
Trais yn erbyn yr unigolyn	17,958	16,771	(1,187)	(6.61%)
Dwyn	4,617	4,277	(340)	(7.36%)
Llosgi bwriadol a difrod troseddol	4,011	4,077	66	1.65%
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	3,938	3,479	(459)	(11.66%)
Troseddau cyffuriau	1,797	2,051	254	14.13%
Troseddau rhyw	1,756	1,658	(98)	(5.58%)
Bwrgleriaeth	1,601	1,350	(251)	(15.68%)
Troseddau amrywiol	1,020	1,038	18	1.76%
Troseddau cerbyd	719	675	(44)	(6.12%)
Meddiant arfau	418	431	13	3.11%
Lladrad	104	98	(6)	(5.77%)
Cyfanswm	**37,939**	**35,905**	**(2,034)**	**(5.36%)**

Wrth edrych ar ffigurau'r flwyddyn, mae gwelliannau pellach wedi'u gwneud o ran cofnodi troseddau i gydymffurfio â'r newidiadau i Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref, ochr yn ochr â bod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau cydymffurfiaeth â Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau a Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Mae troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac aflonyddu wedi bod yn destun mwy o graffu yn genedlaethol, a adlewyrchir gan ostyngiad mewn troseddau trefn gyhoeddus. Mae'r maes gwaith hwn yn parhau i fod yn destun craffu, ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i sicrhau nad oes unrhyw droseddau'n cael eu hanwybyddu. Mae troseddau cyfathrebu maleisus hefyd yn parhau i gael sylw manwl i sicrhau bod y trothwy yn cael ei fodloni cyn cofnodi trosedd.

Aseiniwyd canlyniad i 35,905 o droseddau yn ystod 2025/2026. Roedd 15% o'r rhain yn ganlyniadau a ddatryswyd (a elwid gynt yn 'ganlyniadau cadarnhaol': canlyniadau 1–8, ac eithrio canlyniad 5), datryswyd 4% (canlyniadau 5, 9, 10, 20, 22 – mae plismona wedi gwneud yr hyn y gall, mae digon o dystiolaeth, ond nid yw'r troseddwr yn fyw i'w erlyn, nid yw er budd y cyhoedd, neu gall llwybr dargyfeirio fynd i'r afael â'r ymddygiad). Mae gwelliannau nodedig wedi'u gwneud i gyfraddau'r canlyniadau a ddatryswyd ar gyfer troseddau rhyw (2025/2026: 11%) a siop-ladrad (2025/2026: 35%).

Mae'r heddlu yn parhau i gynnal gwasanaeth teleffoni 999 effeithiol ac effeithlon. Mae galwadau 999, yn anochel, yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw popeth arall gan eu bod yn cynrychioli ceisiadau brys am gymorth pan fo amser yn hanfodol. Derbyniwyd 67,545 o alwadau 999 yn ystod 2025/2026 (cynnydd o 9.3%). Gan fyfyrio ar ddata a adroddwyd yn genedlaethol yn ystod y cyfnod 2025/2026, amser aros cyfartalog galwadau i'r heddlu oedd 4.84 eiliad. O ran perfformiad yr heddlu, rhaid rhoi sylw i'r amser oedi – yr amser a gymerir i alwad gael ei throsglwyddo o gyfnewidfa BT i Ganolfan Reoli'r heddlu sydd wedi'i gynnwys yn y data hyn. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal cofnod perfformiad sy'n rhoi sicrwydd, yn ystod y cyfnod 2025/2026, bod 95.1% o alwadau 999 wedi cael eu hateb mewn llai na 10 eiliad. Mae'r heddlu wedi cyrraedd dangosydd perfformiad allweddol 999 y Swyddfa Gartref Genedlaethol misol yn gyson, sef bod 90% o'r holl alwadau 999 a gyflwynwyd i'r heddlu wedi'u hateb o fewn 10 eiliad, bob mis ers mis Ionawr 2025.

Mae'r perfformiad hwn yn tystio i effaith gadarnhaol barhaus y system deleffoni a radio newydd a ddechreuodd weithredu ym mis Tachwedd 2024, gyda chefnogaeth staff ychwanegol.

Mae'r cyhoedd i raddau helaeth yn ystyried y gwasanaeth 101 yn sianel gyswllt ar gyfer riportio digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys i'r heddlu (yn gyffredinol, galwadau nad ydynt yn cyfiawnhau galwad 999). Derbyniwyd 176,971 o alwadau 101 yn ystod 2025/2026 (cynnydd o 2.5%). Mae'r heddlu wedi cynnal ei berfformiad wrth ateb galwadau 101, gydag amser aros cyfartalog ar gyfer 2025/2026 yn 42 eiliad. Mae hwn yn welliant enfawr o'i gymharu â'r 140 eiliad a gofnodwyd ar gyfer 2024/2025. O ganlyniad, mae'r gostyngiad hwn yn yr amser ateb wedi golygu bod galwyr wedi bod yn llai tebygol o adael eu galwadau wrth giwio, sydd wedi'i adlewyrchu'n gadarnhaol yn y gyfradd rhoi'r gorau i'w galwadau.

Cofnodwyd lefelau gadael ar y gwasanaeth hwn fel 8.3% ym mis Mawrth 2026. Mae'r heddlu wedi aros yn gyson o fewn dangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol cyfradd gadael galwadau o 10% ers mis Ionawr 2025. Mae hwn yn welliant enfawr o'i gymharu â'r gyfradd gadael o 33.09% a gofnodwyd ym mis Ebrill 2024.

Mae'r cynnydd parhaus mewn perfformiad wedi'i briodoli i nifer o fesurau ystyriol a gyflwynwyd, sef gweithredu system deleffoni newydd, buddsoddiad sylweddol mewn lefelau staffio, newidiadau i'r model gweithredu presennol gan gynnwys cyflwyno rhaglen hollgymwys gyda'r bwriad o gryfhau cydnerthedd ar draws yr adran, yn ogystal â chyflwyno rota a phatrwm sifftiau newydd. Mae hyn wedi galluogi lefelau staffio ar ddyletswydd i gael eu cynyddu i'r eithaf ar unrhyw adeg yn unol â'r proffil galw.

Mae'r heddlu'n cynnig gwasanaeth cyswllt digidol 24/7 sy'n cynnwys y platfform adrodd ar-lein cartref ar-lein sengl (y gellir ei gyrchu trwy wefan yr heddlu) a chyfathrebu cyfryngau cymdeithasol dwyffordd.

Yn ystod 2025/2026, cyflwynwyd cyfanswm o 24,821 o ffurflenni cartref ar-lein sengl, cynnydd o 15.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (ffynhonnell data: Knowledge Hub). Mae'r galw hwn yn cynyddu'n barhaus ac mae ffurflenni categorïau a gwasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd. O ran amrywiol sianeli cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu drwy e-bost, mae data'n dangos, yn ystod 2025/2026, y cynhaliwyd cyfanswm o 17,897 o sgyrsiau drwy gyfryngau cymdeithasol (mae'r rhain yn cynnwys negeseuon uniongyrchol a sgyrsiau ar sianeli agored) – mae hyn yn gynnydd o 7.8% o'i gymharu â 16,595 o sgyrsiau yn 2024/2025. Er nad yw'n gwbl fesuradwy eto, amcangyfrifir bod cyswllt e-bost uniongyrchol tua 200 o negeseuon e-bost y dydd.

Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi

Arolygwyd yr heddlu yn flaenorol o dan raglen arolygu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2023–2025 Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn 2023. Dros y cyfnod ariannol 12 mis hwn, mae'r heddlu wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran cwblhau a chymeradwyo meysydd i'w gwella a ddyrannwyd o arolygiadau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu blaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 19 o feysydd i'w gwella yn arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu o gyfnodau arolygu 2021–2023 a 2023–2025 eu cymeradwyo, eu gwirio a'u cau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF. Mae'r pedwar maes sy'n weddill i'w gwella wedi'u cymeradwyo gan yr heddlu ac maent yn destun adolygiad gan Arolygiaeth

Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF fel rhan o arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2025–2027 sy'n parhau ar hyn o bryd. Mae pum maes ychwanegol i'w gwella o adroddiad arolygu thematig Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF mewn perthynas â fetio, camymddwyn ac uniondeb, hefyd wedi'u cymeradwyo a'u cau o fewn y cyfnod o 12 mis diwethaf.

Mae'r heddlu'n cymryd rhan weithredol yn rhaglen arolygu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gyfredol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF, 2025–2027, sydd wedi bod yn mynd rhagddi dros y 12 mis diwethaf. Mae arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu hwn i fod i ddod i ben ddechrau mis Mehefin 2026, yn dilyn y cyfnod casglu tystiolaeth olaf o bythefnos.

O arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu diwethaf a gwblhawyd yn 2023, amlygwyd pryderon, a dyrannwyd meysydd i'w gwella ar gyfer: rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys ac adolygu a deall risg a galw o fewn ystafell reoli'r heddlu a'r ymateb i ddigwyddiadau. Mae'r ddau faes i'w gwella wedi'u cymeradwyo a'u cau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn dilyn rhaglen sylweddol o newid, gan gynnwys system gyswllt ffôn a radio newydd, mwy o adnoddau a model gweithredu newydd i gynnwys hollgymhwysedd gyda Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Mae hyn wedi gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth, gyda'r heddlu bellach yn rhagori'n gyson ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer rhoi'r gorau i alwadau ac amseroedd ateb galwadau ac wedi gwella canolbwyntio ar nifer y galwadau a pherchnogaeth dros ddigwyddiadau mewn graddau ymateb is.

O arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu yn 2023, cafodd yr heddlu radd 'angen gwella' ar adeiladu, cefnogi a diogelu'r gweithlu. Tynnodd yr arolygiaeth sylw at dri maes i'w gwella: gwella hyfforddiant i oruchwylwyr, effeithiolrwydd a gwerth yr adolygiadau datblygiad proffesiynol ac ystyried lles swyddogion a staff. Mae'r heddlu wedi cychwyn rhaglen sylweddol o newid drwy'r rhaglen adolygiad parhaus o'r heddlu a'r model gweithredu, er mwyn cryfhau timau ymateb mewn lifrau yr heddlu wrth wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd sefydliadol. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i sicrhau bod goruchwylwyr wedi'u cymhwyso ar gyfer eu rolau ac mae newidiadau wedi'u gweithredu i broses adolygiad datblygiad proffesiynol i adlewyrchu amcanion personol ac adrannol yn well. Yn ogystal, mae'r heddlu hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau iechyd a llesiant galwedigaethol, gan ganolbwyntio ar ddarparu ystod ehangach o fesurau llesiant, gan gynnwys cymorth ar gyfer rolau risg uchel, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r holl staff a swyddogion ar draws yr heddlu. Mae'r heddlu wedi bodloni holl feysydd i'w gwella y gweithlu hyn dros y 12 mis diwethaf, gyda dau wedi'u gwirio gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac un yn destun adolygiad fel rhan o arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2025–2027 parhaus.

Mae'r heddlu hefyd wedi mynd i'r afael â meysydd i'w gwella er mwyn cynyddu gwelededd a hygyrchedd swyddogion plismona bro a gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu â phobl leol. Mae gan yr heddlu gynllun ymgysylltu a strategaeth ar gyfer y tîm plismona ac atal bro, polisi a chanllawiau wedi'u diweddaru i leihau'r defnydd o adnoddau'r timau plismona ac atal bro a'u hanfon ar ddyletswyddau eraill. Mae'r heddlu hefyd wedi lansio ap ymgysylltu cymunedol newydd i wella cyswllt a chysylltiad â'n cymunedau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi mynd i'r afael â meysydd i'w gwella ar gyfer amddiffyn pobl fresgus, a amlygwyd yn arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu yn 2023. Mae'r heddlu wedi gwella craffu ac adolygiad eilaidd o bob digwyddiad cam-drin domestig, wedi darparu hyfforddiant cynhwysfawr i swyddogion a staff mewn rolau arbenigol ym maes bregusrwydd, ac wedi gwella llywodraethu a monitro perfformiad i amddiffyn pobl fregus yn effeithiol. Mae'r holl feysydd i'w gwella hyn sy'n ymwneud ag amddiffyn pobl fregus hefyd wedi'u cymeradwyo a'u cau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF o fewn y cyfnod o 12 mis diwethaf.

Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi mynd i'r afael â meysydd i'w gwella mewn perthynas â safonau ymchwilio, gwasanaeth i ddioddefwyr a chyflawni deilliannau priodol i ddioddefwyr troseddau. Mae'r heddlu wedi gwella'r broses ar gyfer sicrhau ansawdd ac archwilio ymchwiliadau troseddau ac wedi defnyddio technoleg i wella'r broses o gasglu data ynghylch ansawdd a chydymffurfiaeth contractau dioddefwyr. Unwaith eto, mae tri maes i'w gwella a ddyrannwyd yn flaenorol yn ymwneud â gwella safonau ymchwilio hefyd wedi'u cymeradwyo a'u cau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF. Mae'r heddlu hefyd wedi gwella effeithiolrwydd prosesau llywodraethu i gefnogi ei fframwaith perfformiad, a'r ddealltwriaeth o sut mae buddsoddiadau mewn systemau TGCh yn gwella cynhyrchiant.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r heddlu hefyd wedi bod yn destun gweithgaredd arolygu arall gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac wedi ymwneud yn uniongyrchol ag arolygu. Arolygwyd yr heddlu fel rhan o'r arolygiad troseddau difrifol a threfnedig ac mae wedi cael ei raddio fel "digonol" o'r arolygiad hwn ac wedi nodi canfyddiadau cadarnhaol gan gynnwys: blaenoriaethu a rheoli'r ymateb i droseddau difrifol a threfnedig, adnoddau arbenigol, gwaith atal a gwella casglu gwybodaeth i fynd i'r afael â throseddu difrifol a trefnedig. Nodwyd dau faes i'w gwella hefyd ynghylch gwella dealltwriaeth gyffredinol y gweithlu o droseddu difrifol a threfnedig a rheoli troseddwyr, ac mae'r rhain eisoes yn cael sylw.

Roedd yr heddlu hefyd yn rhan o archwiliad ar y cyd o adeiladu achosion yn ardal De Cymru gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ym mis Mehefin 2025. Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi eto.

O weithgarwch arolygu thematig arall Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF a gynhaliwyd yn genedlaethol, mae argymhellion ychwanegol hefyd wedi'u dyrannu i bob heddlu o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 12 mis hwn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol;

- Arolygiad i ba mor effeithiol y mae'r heddlu'n ymchwilio i droseddau (wyth argymhelliad) – cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025
- Gwella'r ymateb i droseddau mewnfudo cyfundrefnol (pedair argymhelliad) – cyhoeddwyd ym mis Mai 2025
- Pa mor effeithiol mae'r heddlu'n cofnodi troseddau? Adroddiad sbotolau ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (tair argymhelliad) – cyhoeddwyd ym mis Awst 2025
- Effeithiolrwydd dargyfeirio plant o'r system cyfiawnder troseddol: diwallu anghenion, sicrhau diogelwch, ac atal aildroseddu (un argymhelliad) – cyhoeddwyd ym mis Hydref 2025

- Arolygiad o effeithiolrwydd ymateb yr heddlu a chyrff gorfodi'r gyfraith i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau: Adroddiad cynnydd (pedwar argymhelliad) – cyhoeddwyd ym mis Hydref 2025

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran yr holl argymhellion o'r arolygiadau thematig hyn, a adroddir ac a drafodir yn y cyfarfodydd bwrdd llywodraethu strategol chwarterol priodol. Mae'r heddlu wedi cymeradwyo 25 o argymhellion o arolygiadau thematig yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ar hyn o bryd, heddlu'n cymryd rhan weithredol yn rhaglen arolygu gyfredol effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF, 2025–2027, a ddisgwylir i ddod i ben ddechrau mis Mehefin 2026. Cyhoeddir canfyddiadau arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu parhaus hwn gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn ddiweddarach eleni ac yn wir bydd yr heddlu unwaith eto'n sicrhau y bydd yn mabwysiadu dull rhagweithiol i fynd i'r afael ag unrhyw welliannau a allai fod yn ofynnol i gynnal a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i'n cymunedau yn barhaus.

Datganiad Rheoli'r Heddlu

Cyflwynodd y Prif Gwnstabl Ddatganiad Rheoli'r Heddlu 8 (2025) diweddaraf i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ym mis Mai 2026, gan ddarparu asesiad wedi'i ddiweddaru o gapasiti gweithredol Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn y galw presennol a'r galw disgwyliedig yn y dyfodol. Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ymwybodol o sawl ffactor o fewn yr heddlu gan gynnwys:

- Blaenoriaethau a osodwyd gan y Prif Gwnstabl (themâu cam-drin domestig, cyffuriau, treisio a throseddau rhywiol).
- Mae parhad rhaglen newid yr heddlu, a elwir bellach yn fodel gweithredu'r heddlu, yn parhau i fod yn sbardun allweddol ar gyfer nodi gwelliannau busnes gweithredol, gyda sawl ffrwd waith ar gam gweithredu neu werthuso'r flwyddyn gyntaf.
- Datblygu dangosfyrddau deallusrwydd busnes ymhellach i ysgogi a chefnogi fframweithiau perfformiad a rheoli perfformiad mwy effeithiol. Mae momentwm yn adeiladu, wedi'i gefnogi gan symud i amgylchedd data Fabric a chanolbwyntio ar lythrennedd data, ansawdd a chywirdeb.

Mae Rhaglen Adolygu'r Heddlu yn ymwybodol o bob un o'r ffactorau uchod a'r effaith y maent wedi'i chael ar yr heddlu cyfan. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am risgiau allweddol ac unrhyw risgiau newydd sydd wedi dod i'r amlwg. Mae pob adran maes busnes o Ddatganiad Rheoli'r Heddlu yn ystyried cyflwr, perfformiad, cyfansoddiad, capasiti, gallu, llesiant a diogelwch cyflenwad gweithlu'r heddlu ac asedau eraill yn erbyn gofynion galw cyfredol a rhai y gellir eu rhagweld yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu mewn pedwar cam sy'n rhan o ganllawiau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF ac yn cefnogi rhesymeg cynllunio busnes a gwneud penderfyniadau, fel rhan o'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd blynyddol ehangach.

Nododd Datganiad Rheoli'r Heddlu nifer o themâu a blaenoriaethau trawsbynciol, yn benodol mewn perthynas â newidiadau yn y galw am wasanaethau. Tynnwyd sylw hefyd at y meysydd allweddol o gynllunio a blaenoriaethu sydd eu hangen i gynnal a gwella darpariaeth

gwasanaethau, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu hadrodd drwy'r broses gynllunio strategol a sicrwydd. Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u crynhoi ar draws y penawdau canlynol:

- Buddsoddi yn y gweithlu, hyfforddiant ac achredu, recriwtio (gan gynnwys fetio), gwydnwch arferion cadw staff, a llesiant.
- Heriau ariannol; mae pwysau cyllidebol yn parhau gydag ansicrwydd yn gysylltiedig ag ystyriaethau parhaus cynlluniau diwygio'r heddlu y Swyddfa Gartref a gostyngiadau a/neu newidiadau posibl i gyllid y llywodraeth i'w goresgyn.
- Materion amgylcheddol a chynaliadwyedd.
- Dadansoddi perfformiad a galw, a delweddu data.
- Ystadau - rhaglen fuddsoddi hirdymor i sicrhau y gallwn gynnal gweleded fel rhan o'n Strategaeth Plismona Bro ac Atal Lleol.
- Seilwaith a sgiliau technegol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a'r galw cynyddol am ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a thechnolegau arloesol.
- Rheoli gwybodaeth a data.

Mae dull Datganiad Rheoli'r Heddlu presennol wedi'i gydlynu'n ganolog ac roedd wedi'i alinio'n agosach â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, cynllunio strategol a phroses y gyllideb ar gyfer 2025/2026. Bydd yr heddlu'n parhau i adolygu ei fethodoleg ar gyfer cynhyrchu Datganiad Rheoli'r Heddlu i sicrhau'r ymagwedd fwyaf effeithlon ac effeithiol at gynllunio strategol. Bydd cylch nesaf Datganiad Rheoli'r Heddlu (FMS 9 - 2026) yn gweld cyflwyno cynhyrchion Microsoft 365 i gynyddu effeithlonrwydd wrth ddadansoddi data ansoddol a gwella gweleded ein hasesiad risg sefydliadol o bob maes busnes.

4 Y Model Sefydliadol

Trefnir heddlu Dyfed-Powys ar sail ddaearyddol a swyddogaethol. Cefnogir y Prif Gwnstabl gan dîm prif swyddogion sy'n cynnwys y Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Dangosir prif gyfrifoldebau'r pedair swydd sy'n cefnogi'r Prif Gwnstabl yn y tabl isod:

Dirprwy Brif Gwnstabl	Prif Gwnstabl Cynorthwyol	Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad	Cyfarwyddwr Cyllid
Adran gyfreithiol	Plismona lleol	Adnoddau dynol	Cyllid corfforaethol
Gwella Gwasanaeth/Adolygiad yr Heddlu	Ymchwiliadau	Iechyd a llesiant galwedigaethol	Systemau gwybodaeth a thechnoleg
Rheoli gwybodaeth	Ymateb arbenigol	Gwasanaethau datblygu	Caffael
Perfformiad	Canolfan Gyswllt yr heddlu	Cymdeithasau staff a chysylltiadau â gweithwyr	Fflyd
Cydweithio	Cefnogaeth wyddonol		Ystadau

Safonau proffesiynol	Y ddalfa a chyfiawnder troseddol		
Iechyd a diogelwch	Partneriaethau		
Arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi	Cyfathrebu Corfforaethol		

Mae gan yr heddlu hanes rhagorol o gyflawni gostyngiadau costau strategol o £14.8 miliwn ers 2023/2024, sydd, ynghyd â chynnydd mewn praesept, wedi galluogi'r heddlu i wella gwydnwch ariannol a gwneud buddsoddiadau blaenoriaethol pwysig. Mae buddsoddiadau o'r fath wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â heriau allweddol mewn gwasanaethau, pwysau cost ac wedi galluogi gwelliannau mewn technoleg a seilwaith. Mae'r rhain wedi arwain at welliannau pendant ar draws ystod o wasanaethau gan gynnwys yr ystafell reoli, y ddalfa, mentrau atal a swyddogaethau cymorth busnes. Mae strwythurau gwaith a chyfarfodydd llywodraethu model gweithredu'r heddlu yn sicrhau bod yr heddlu'n parhau i edrych yn fewnol ac yn gydweithredol ar ffyrdd o wella gwasanaethau i gyflawni disgwyliadau dioddefwyr, y cyhoedd, partneriaid ac yn y pen draw, y gweithlu ei hun.

Roedd cyllideb yr heddlu ar gyfer 2025/2026 yn ymgorffori arbediad o £2.8 miliwn. Mae ymgysylltu cynhwysfawr â deiliaid cyllideb, monitro a chefnogaeth partneriaeth busnes cyllid wedi parhau drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r heddlu wedi parhau i ail-lunio i ddiwallu'r galw. Fodd bynnag, cydnabyddir bod tirwedd plismona yn newid yn barhaus.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026, roedd gan y Comisiynydd a'r heddlu gyllideb o 1,298 o swyddogion yr heddlu, 133 o swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu, a 924 o staff yr heddlu. Dangosir dadansoddiad o ddosbarthiad staffio yn y tabl canlynol:

	Swyddogion yr heddlu	Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu	Staff yr heddlu	Cyfanswm
Swyddi a gyllidebwyd 2025/2026	**Cyfwerth ag amser llawn**			
Plismona lleol	586	133	45	764
Ymchwiliadau	457	0	163	620
Cymorth gweithredol (gan gynnwys delio â galwadau)	127	0	177	304
Cyfiawnder troseddol	2	0	80	82
Cymorth gwyddonol a gwaith fforensig digidol	4	0	66	70
Safonau proffesiynol	10	0	21	31
Arall (gan gynnwys cymorth busnes)	36	0	320	356
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	0	0	22	22
Secondiadau a meysydd a ariennir	76	0	30	106
Cyfanswm	**1,298**	**133**	**924**	**2,355**

Mae'r ymgyrchoedd recriwtio wedi'u cynllunio a'u rheoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn i sicrhau'r lefelau gorau posibl o adnoddau, argaeledd sgiliau arbenigol ac i ganiatáu dosbarthu staff yn gymesur ar sail ddaearyddol. Mae Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu yn parhau i weld myfyrwyr sy'n gwnstabliaid yn cael eu derbyn bob blwyddyn gyda darparwyr cyrsiau allanol yn darparu elfennau craidd o'u hyfforddiant.

Mae'r heddlu wedi gweld nifer uchel o swyddogion heddlu a staff yn gadael yn ystod y flwyddyn. Mae hyn, ynghyd ag oedi anochel wrth recriwtio staff a throsglwyddeion, wedi arwain at bwysau sylweddol mewn timau recriwtio a fetio ac arbedion heb eu cynllunio yn erbyn cyllidebau cyflog. Yn ogystal â recriwtio i gymryd lle'r rhai sy'n ymddeol ac yn gadael fel arfer, mae'r heddlu hefyd wedi bod yn cynyddu'r sefydliad yn unol â rhaglen Uplift swyddogion heddlu'r Swyddfa Gartref, gan arwain at darged o 1,314 o swyddogion erbyn mis Mawrth 2026, nifer a gynhaliwyd. Yn ogystal, roedd yr heddlu yn wynebu targed o gynyddu swyddogaethau plismona bro o 33 o swyddi cyfwerth ag amser llawn erbyn mis Mawrth 2026, a chyflawnwyd hyn yn llwyddiannus.

Mae gan y Comisiynydd swyddfa sy'n ei gefnogi i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel y nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011. Yn ogystal â rolau statudol y swyddog monitro a'r prif swyddog cyllid, mae gan y Comisiynydd dîm o weithwyr proffesiynol i gynghori ar faterion yn ymwneud â chyllid, polisi, perfformiad, ymgysylltu, comisiynu a phartneriaethau. Roedd gan y Comisiynydd sefydliad wedi'i gyllidebu o 22 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2025/2026.

5 Perfformiad ariannol

Mae datganiad o gyfrifon y Prif Gwnstabl yn dangos perfformiad ariannol yr heddlu. Mae hwn wedi'i baratoi yn seiliedig ar arfer cyfrifyddu priodol i gydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cyllidebau sy'n cael eu rheoli a'u monitro o ddydd i ddydd gan nad yw'r rhain yn cynnwys rhai elfennau megis dibrisiant a symudiadau ar rwymedigaethau pensiwn nad oes angen eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn o dan ofynion statudol.

Mae cost y gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr yn dangos bod £170.1 miliwn wedi'i wario ar ddarparu gwasanaethau plismona i gyhoedd Dyfed-Powys yn 2025/2026 (2024/2025: £166.2 miliwn). Mae'r datganiad yn rhoi dadansoddiad ar draws y prif gydrannau cost. Gwariwyd yr elfen fwyaf ar gyflogau a phensiynau swyddogion yr heddlu, a oedd yn cyfrif am £82.5 miliwn o'r cyfanswm yn 2025/2026 (2024/2025: £82.6 miliwn). Mae'r amrywiad mewn cost gwasanaeth yn cael ei effeithio'n sylweddol gan y symudiad mewn rhwymedigaethau pensiwn a chofnodion dibrisiant cyfalaf.

Mae'r fantolen yn rhoi cipolwg ar asedau a rhwymedigaethau'r Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r fantolen yn cael ei dominyddu gan rwymedigaeth hirdymor o £952.3 miliwn (2024/2025: £922.9 miliwn) sy'n bodoli mewn perthynas â rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu. Mae hyn yn cynrychioli'r swm amcangyfrifedig y mae angen ei neilltuo ar ddyddiad y fantolen i dalu cost taliadau pensiwn ar gyfer yr holl swyddogion a staff presennol/sy'n gwasanaethu ac wedi ymddeol. Mae'r ffigur hwn wedi'i gyfrifo'n annibynnol ar sail actiwaraidd, gan ystyried ffactorau megis lefelau cyflog yn y dyfodol, chwyddiant, cyfraddau marwolaethau, ac ati.

Yr eitem fwyaf nesaf ar y fantolen yw'r £21.6 miliwn (2024/25: £19.9 miliwn) o gredydwyr tymor byr sy'n cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan y Prif Gwnstabl ar ddiwedd y flwyddyn. Mae

manylion a dadansoddiadau pellach mewn perthynas ag eitemau'r fantolen wedi'u cynnwys yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Dadansoddiad o Berfformiad Ariannol ac Amrywiad Cyllidebol 2025/2026

Gosododd y Comisiynydd gyllideb refeniw o £153.3 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026, sy'n cynrychioli cynnydd o 6.5%. Roedd hyn yn cynnwys defnydd o gronfeydd wrth gefn o £1.9 miliwn, yn ogystal â mesurau lleihau costau gwerth cyfanswm o £2.8 miliwn (1.8%). Roedd hyn yn dal i adael cynnydd yn y dreth gyngor ym Mand D o 8.6%.

Galluogodd y lefel ariannu hon yr heddlu i barhau i gyflawni ei gynlluniau gweithredol a strategol, er gwaethaf pwysau cost sylweddol. Darparodd fuddsoddiad ar gyfer moderneiddio'r gweithlu hefyd, gan gynnwys ailgynllunio 50 o swyddi swyddogion heddlu, gan ganiatáu iddynt gael eu hail-leoli i blismona mewn lifrai. Yn ogystal, darparodd y gyllideb hefyd ar gyfer 11 o staff ychwanegol yn yr Adran Cyfiawnder Troseddol i ryddhau swyddogion o dasgau gweinyddol sy'n cymryd llawer o amser fel datgeliadau, golygu a gwirio Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu.

Roedd angen i gyllideb 2025/2026 ymgorffori effaith y cynnydd cyflog o 4.75% a ddyfarnwyd ym mis Medi 2024, ochr yn ochr â chynnydd sylweddol yn Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Roedd yr heddlu'n wynebu amrywiaeth o bwysau ariannol eraill gyda threfniadau cyllido grant penodol yn amodol ar gynnal niferoedd y gweithlu cyffredinol o swyddogion a swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu, tra hefyd yn ychwanegu 33 o swyddogion at swyddogaethau plismona bro.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r sefyllfa alldro terfynol ar gyfer 2025/2026 ac yn cymharu hyn â'r gyllideb ddiwygiedig. Mae'r gyllideb ddiwygiedig yn adlewyrchu symudiadau cyllidebau a chronfeydd wrth gefn ychwanegol a gytunwyd yn ystod y flwyddyn at ddibenion monitro cyllideb, yn unol â'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol.

Datganiad amrywiad Deiliad cyllideb	Cyllideb wreiddiol £miliwn	Cyllideb ddiwygiedig £miliwn	Gwirioneddol £miliwn	Amrywiant (Cadarnhaol ar gyfer arbed) £miliwn
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu				
Costau swyddfa a chomisiynu	3.3	3.3	3.2	0.1
Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn – Comisiynydd	0.0	0.0	0.1	(0.1)
Cyfanswm costau cyllideb refeniw'r Comisiynydd	**3.3**	**3.3**	**3.3**	**0.0**
Prif gwnstabl				
Cyflogau a lwfansau'r heddlu	89.1	89.2	89.9	(0.7)
Goramser swyddogion yr heddlu	2.0	2.3	2.9	(0.6)
Gwyliau'r banc	0.9	0.9	0.9	0.0
Cyflogau a lwfansau staff yr heddlu	46.5	46.5	45.1	1.4
Goramser staff yr heddlu	0.3	0.3	0.4	(0.1)
Costau pensiwn	1.9	1.9	1.8	0.1
Recriwtio, yswiriant a hyfforddiant	2.0	2.0	1.7	0.3
Costau adeiladau	5.8	5.8	5.9	(0.1)
Costau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau	13.4	13.3	13.0	0.3
Dadansoddi ffonau a gwaith fforensig	3.5	3.5	3.4	0.1
Taliadau cydweithio ac asiantaeth	5.2	5.2	5.2	0.0
Grantiau	(17.9)	(17.9)	(19.1)	1.2
Incwm	(4.8)	(4.4)	(5.6)	1.2
Cyllid cyfalaf	4.5	4.8	4.7	0.1
Ailgodi taliadau	(0.5)	(1.2)	(0.7)	(0.5)
Cyfanswm y gyllideb – heddlu	**151.9**	**152.2**	**149.5**	**2.7**
Cyfanswm y gyllideb – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl	**155.2**	**155.5**	**152.8**	**2.7**
Cyfraniad i/(o) gronfeydd wrth gefn – Prif Gwnstabl	(1.9)	(2.2)	0.5	(2.7)
Gwariant net ar ôl trosglwyddo o refeniw i gronfeydd wrth gefn	**153.3**	**153.3**	**153.3**	**0.0**
Cyfrifon dal a chyfrifon hunan-fantoli				
Rhaglen ailhyfforddi gyrwyr	0.0	0.0	(0.4)	0.4
Trosglwyddo i/(o) gronfeydd wrth gefn – ailhyfforddi gyrwyr	0.0	0.0	0.4	(0.4)
Symudiad ar gronfeydd y comisiynwyr				
Cost net gwasanaethau a ariennir o gronfeydd wrth gefn	0.8	0.8	0.1	0.7
Trosglwyddiad net i/(o) gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	(0.8)	(0.8)	(0.1)	(0.7)
Defnyddio'r gronfa gyfalaf wrth gefn				
Cyllid refeniw uniongyrchol ar gyfer defnyddio cronfeydd cyfalaf wrth gefn	0.0	0.0	2.4	(2.4)
Trosglwyddo o gronfeydd wrth gefn tuag at raglen gyfalaf fel cyllid refeniw uniongyrchol	0.0	0.0	(2.4)	2.4
Cyfanswm cyfrifon dal	**0.0**	**0.0**	**0.0**	**0.0**

Roedd gwariant Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn y gyllideb o £0.1 miliwn a arweiniodd at lai o symud nag a ragwelwyd yn y cronfeydd arian wrth gefn. Roedd hyn yn adlewyrchu gwariant is gan yr heddlu a phartneriaid.

Mae sefyllfa alldro refeniw'r heddlu yn gadarnhaol iawn gyda thanwariant o £2.7 miliwn yn gyffredinol cyn addasu ar gyfer trosglwyddiadau cronfeydd wrth gefn y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer pwysau cost untro sy'n codi yn 2026/2027 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Profodd yr heddlu bwysau sylweddol yn erbyn cyllidebau cyflog swyddogion a staff oherwydd dyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl ym mis Medi 2025. Talwyd grant ychwanegol o £0.8 miliwn a helpodd i wrthbwyso'r costau ychwanegol. Derbyniodd yr heddlu grantiau eraill o £0.4 miliwn yn ystod y flwyddyn hefyd nad oeddent wedi disgwyl eu cael, i ariannu rhai prosiectau cyfalaf TGCh cenedlaethol.

Roedd cyllideb staff yr heddlu £1.4 miliwn o dan y gyllideb er gwaethaf y cynnydd mewn dyfarniad cyflog ac roedd hyn oherwydd oedi wrth recriwtio staff yr heddlu. Ym mis Ionawr 2025, dyblwyd y grant plismona bro a chynyddwyd y gofyniad recriwtio staff o 17 i 33. Yn ogystal, ariannwyd 17 swydd staff arall o'r praesept i helpu i gadw swyddogion ar y rheng flaen. Arweiniodd penodi llawer o staff mewnol i'r rolau niferus hyn, ynghyd â heriau o ran recriwtio, iechyd galwedigaethol a gwirio, at oedi sylweddol. Rhagwelwyd y rhain ar adeg gosod cyllideb 2026/2027 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Er gwaethaf yr heriau hyn, llwyddodd yr heddlu i ryddhau 33 o swyddogion i dimau plismona bro newydd erbyn diwedd y flwyddyn a thrwy hynny hawlio'r rhan fwyaf o'r grant. Cyrhaeddodd yr heddlu hefyd ei darged cynyddu swyddogion a osodwyd gan raglen Uplift y Swyddfa Gartref.

Mae'r amrywiant negyddol yn erbyn goramser swyddogion heddlu yn adlewyrchu'r dyfarniadau cyflog uwch yn ogystal â'r gofyniad i gyflawni ymrwymiadau cydgymorth cenedlaethol a sicrhau bod digon o swyddogion arbenigol yn y ddalfa ac ardaloedd eraill lle mae galw mawr yn ystod oriau brig.

O ran penawdau incwm, roedd derbyniadau llog yn sylweddol uwch nag a ragwelwyd oherwydd llif arian parod mwy ffafriol a chyfraddau llog yn parhau'n uwch am gyfnod hirach, gan gyfrannu £0.4 miliwn o'r arbediad o £1.2 miliwn yn erbyn y pennawd hwn. Enillwyd ad-daliad sylweddol o £0.5 miliwn uwchlaw'r gyllideb drwy orchmynion atafaelu ac adennill elw troseddau. Roedd derbyniadau cymorth cydfuddiannol hefyd £0.2 miliwn yn uwch na'r disgwyl, gyda'r heddlu yn darparu cefnogaeth trefn gyhoeddus ar sawl achlysur i gefnogi heddluoedd eraill dros yr haf – a roddodd bwysau ychwanegol ar y gweithlu a chyllidebau goramser yr heddlu.

Cynhyrchodd y rhaglen ailhyfforddi gyrwyr warged o £0.4 miliwn yn ystod y flwyddyn, sydd wedi'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio ar fentrau diogelwch ffyrdd. Y symudiad net ar gronfeydd eraill oedd cyfraniad o £0.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn yn erbyn cyllideb o £0.8 miliwn.

O ran meysydd eraill, talodd y Swyddfa Gartref grant ychwanegol sy'n cyfateb i £0.4 miliwn i Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â'r Uned Troseddau Difrifol a Threfnedig – Tarian. Mae'n debygol y bydd y grant sydd ar gael i Tarian yn cael ei dorri yn 2026/2027 ac felly crëwyd cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. O ran defnydd, mae'r heddlu wedi clustnodi £0.9 miliwn o'r tanwariant tuag at gynlluniau cyfalaf yn y dyfodol fel y rhagwelwyd adeg gosod y gyllideb. Bydd y gweddill yn cael ei glustnodi i fynd i'r afael â phwysau cost presennol heb ei ariannu megis dyfarniadau cyflog disgwyliedig yn 2026, a chynnydd yng nghostau tanwydd sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y Dwyrain Canol, yn ogystal ag amrywiaeth o bwysau ariannol eraill.

Mae manylion llawn y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn a'r cronfeydd sy'n weddill yn cael eu hadrodd yn 'nodyn 10 - Trosglwyddiadau i/o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd' y cyfrifon grŵp.

6 Risgiau, cyfleoedd, a'r rhagolygon ariannol tymor canolig

Rheolir risgiau ar bob lefel o'r sefydliad trwy'r strwythur llywodraethu a defnyddir cofrestr risg gorfforaethol i gofnodi, rheoli a lliniaru'r prif risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl.

Roedd y prif risgiau a oedd yn parhau'n 'fyw' ar ddiwedd 2025/2026 yn cynnwys y canlynol:

- Cerbydau trydan a seilwaith - mae risg na fydd yr heddlu'n cyflawni'r rhwymedigaethau sero net a osodwyd gan y llywodraeth, gyda chynllunio effeithiol yn hanfodol i liniaru dau ffactor allweddol: yn gyntaf, gall argaeledd cerbydau ddod yn gyfyngiad, os na fydd gweithgynhyrchwyr yn bodloni'r galw. Yn ail, y seilwaith ar gyfer gwefru mewn gorsafoedd ac ar leoliadau ar lwybrau. Defnyddir dull sy'n seiliedig ar ddata i asesu patrymau defnydd cerbydau a llywio gwneud penderfyniadau strategol. [sgôr gweddilliol 16]
- Proses Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data - mae risg o oedi wrth gwblhau a chymeradwyo Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data oherwydd ôl-groniad presennol. Mae adolygiad o'r broses wedi'i gwblhau, ac mae argymhellion yn cael eu gweithredu i helpu i liniaru'r risg. [sgôr gweddilliol 20].
- Gofal Cywir Unigolyn Cywir - efallai y bydd cyflawni camau 3 a 4 o brosiect Gofal Cywir Unigolyn Cywir yn cael ei heffeithio gan adnoddau a seilwaith partneriaeth annigonol, serch hynny, mae'r heddlu wedi gweithredu camau 1 a 2 yn llwyddiannus, gyda chyfathrebu rhanbarthol a chenedlaethol cryf yn cael ei gynnal gyda darparwyr gwasanaethau partner. [sgôr gweddilliol 12].
- Fetio - mae risg na fydd yr heddlu'n cyflawni ei ymrwymiadau fetio oherwydd ôl-groniadau cynyddol sy'n fwy na throthwy goddefgarwch Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Yn dilyn cynnig cylch sicrwydd cynllunio strategol llwyddiannus, mae adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i liniaru'r risg ymhellach. [sgôr gweddilliol 9].
- Rheoli parhad busnes - efallai na fydd yr heddlu yn gallu ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau sy'n tarfu ar fusnes, ac adfer ar ôl digwyddiadau o'r fath, oherwydd absenoldeb swyddog parhad busnes dynodedig. Darparwyd cymorth adnoddau dros dro i gynnal swyddogaethau gweinyddol fel mesur rheoli cyfredol. [sgôr gweddilliol 12].

Mae'r gofrestr risg yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod perchennog risg yn cael ei neilltuo i risgiau a bod y perchennog hwnnw'n gyfrifol am roi mesurau lliniaru a chamau gweithredu priodol ar waith. Mae rhagor o fanylion mewn perthynas â rheoli risg wedi'u cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

Cyllideb a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/2027

Cytunodd y Panel Heddlu a Throseddu yn unfrydol ar gynnydd blynyddol o 7.47%, neu £26.95, yn y dreth gyngor ym Mand D fel y cynigiwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Ionawr 2026, gan arwain at gyllideb net o £165.1 miliwn ar gyfer 2026/2027. Mae'r gyllideb yn cynnwys:

- Cynnal niferoedd swyddogion heddlu, er gwaethaf dileu targedau cynyddu nifer swyddogion yr heddlu rhaglen Uplift y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ym mis Ionawr 2026.

- Cynnydd pellach o 12 swyddog mewn swyddogaethau plismona bro, fel y'i dyfarnwyd o dan grant Gwarant Plismona Bro y llywodraeth fel y'i cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026.
- Ymgorfforwyd cynnydd cyflog o 4.2% a ddyfarnwyd i swyddogion a staff ym mis Medi 2025 ac roedd hyn yn sylweddol uwchlaw'r 2.8% a dybiwyd yn y gyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol. Tybiwyd cynnydd pellach o 3% o fis Medi 2026 ymlaen.
- Cynnydd cyffredinol o 3% mewn chwyddiant a chynnydd anochel mewn costau llog ac yswiriant.
- Gostyngiadau cost net o £3.5 miliwn (2.2%) a oedd yn cynnwys gostyngiad yng nghyfraniadau'r cyflogwr i bensiwn staff yr heddlu, yn ogystal â gostyngiadau yn erbyn costau ynni ac o weithgareddau caffael lleol, cenedlaethol a rhanbarthol.
- Cynnydd o £1.4 miliwn mewn cyllid refeniw uniongyrchol i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol, ochr yn ochr â £2.5 miliwn (1.6%) o fuddsoddiad strategol i fynd i'r afael â bylchau gwasanaeth a nodwyd a chyfleoedd i wella gwasanaethau. Mae arweinwyr gwasanaeth wedi datblygu cynlluniau wedi'u costio i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, ac maent wedi'u blaenoriaethu gan brif swyddogion gan ystyried canlyniadau ymgynghori â rhanddeiliaid (gan gynnwys y gweithlu, dioddefwyr, partneriaid a'r cyhoedd), yn ogystal â phwysau ar wasanaethau a nodwyd drwy Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, prosesau rheoli risg, adroddiadau archwilio a chanfyddiadau'r arolygiaeth.

O fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys, roedd angen ymgorffori sawl rhagdybiaeth allweddol, yn ogystal â goblygiadau penderfyniadau y cytunwyd arnynt eisoes, gan gynnwys y canlynol:

- Cronfeydd wrth gefn yn gostwng o £21.8 miliwn ym mis Mawrth 2025 i £7.9 miliwn erbyn mis Mawrth 2029.
- Rhaglen Gyfalaf 2026/2027 gwerth £25.3 miliwn, gan gynnwys gorsaf heddlu Aberhonddu a chwblhau Maes Hyfforddi Arfau Tanio y tri heddlu.
- Gofyniad cyllido cyfalaf (benthyca) ychwanegol o £28 miliwn erbyn mis Mawrth 2029 a gofyniad benthyca allanol o £35 miliwn, gyda chostau cyllido cyfalaf yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yng nghyllideb refeniw y dyfodol wedi mantoli.

Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn o ran y sefyllfa economaidd gyffredinol, gyda'r argyfwng costau byw a gwrthdaro a gwrthdaro parhaus pellach sy'n creu risgiau chwyddiant a chyfraddau llog pellach. Mae mesurau lleihau costau o dros £11 miliwn wedi'u cyflawni ers 2023/2024 gyda £3.5 miliwn pellach wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2026/2027. Mae risg yn parhau y bydd y dyfarniad cyflog ym mis Medi 2026 yn fwy na'r 3% a dybiwyd adeg gosod y gyllideb. Mae Corff Adolygu Cydnabyddiaeth Ariannol yr Heddlu yn argymell cynnydd cyflog o 3.5%, a allai gostio £0.4 miliwn ychwanegol. Yn ogystal, mae cynnydd mewn prisiau tanwydd ers mis Mawrth 2026 wedi arwain at gynnydd o tua £6,000 mewn costau tanwydd wythnosol, gan greu pwysau cost posibl pellach.

Gydag Adolygiad yr Heddlu wedi dod i ben, ond y gwaith ar fodel gweithredu'r heddlu yn parhau i mewn i drydydd a phedwaredd flwyddyn, mae'r heddlu wedi gallu gosod Cynllun Ariannol Tymor

Canolig wedi'i fantoli yn seiliedig ar set gychwynnol o dybiaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod sy'n gysylltiedig â chwyddiant y Trysorlys a dangosyddion cyllid.

Gellir dod o hyd i ddogfen lawn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/2027 ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yma:

https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/

Mae gosod rhagdybiaethau chwyddiant yn y dyfodol yn anodd, gan fod pob newid canrannol o'r lefelau tybiedig yn gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn termau ariannol. Byddai newid o 1% ym mhob rhagdybiaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn arwain at ddiffyg/gwarged o £1.1 miliwn yn 2026/2027, gan godi i ddiffyg/gwarged o £4.0 miliwn yn y blynyddoedd i ddod. Gyda'i gilydd, byddai angen mynd i'r afael â hyn drwy ostyngiadau costau pellach neu addasiadau i'r dreth gyngor. Mae'r cynllun yn arbennig o sensitif i amrywiadau mewn dyfarniadau cyflog, lefelau praesept a setliadau.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ail gam adolygiad cynhwysfawr o wariant 2025 ar 11 Mehefin 2025, ac roedd yn cynnwys cyfanswm y dyraniadau plismona am dair blynedd o 2026/2027. Cafodd y rhain eu hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Daeth cyhoeddiadau ar ddiwygio'r heddlu yn rhy hwyr i gael eu hymgorffori. Mae gwaith ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2027/2028 wedi dechrau ers mis Mehefin 2025.

Mae'r Comisiynydd a'r heddlu yn wynebu nifer o ymrwymiadau a rhwymedigaethau ariannol anhysbys ac ansicr posibl yn y dyfodol, y cyfeirir atynt ymhellach yn y nodiadau Rhwymedigaethau digwyddiadol a phensiynau. Ailgychwynnodd Llywodraeth y DU yr adolygiad o'r fformiwla ariannu ym mis Mai 2021, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn symud ymlaen yn y tymor canolig ac mae'n cael ei ymgorffori mewn ystyriaethau ehangach ynghylch diwygio'r heddlu. Mae canlyniad y gwaith hwn a'r canlyniadau ariannol posibl yn parhau i fod yn risg.

Er gwaethaf y cynnydd tybiedig ym mhraesept y dreth gyngor, mae angen parhau â gofynion effeithlonrwydd a chynhyrchiant dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn y dyfodol, cymhlethdodau mewn perthynas â chostau pensiynau, diwygio'r heddlu a'r gweithlu o'i gymharu â'r dirwedd economaidd ehangach yn golygu bod yr amgylchedd ariannol yn debygol o barhau i fod yn heriol am y dyfodol hyd y gellir ei ragweld.

Mae hysbysiad Adran 114 yn ddatganiad y mae'n ofynnol i swyddog cyllid awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr ei gyhoeddi, lle mae awdurdod yn rhagweld y bydd ei wariant yn fwy na'i incwm ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol. I gadarnhau, mae Heddlu Dyfed-Powys yn ystyried gofynion Adran 114 yn rheolaidd, fel rhan o'r broses o osod a monitro'r gyllideb. Ystyrir bod yr incwm a ragwelir yn ddigonol i fodloni'r gwariant a ragwelir yn y tymor byr a chanolig ac felly nid oes angen adrodd ar unrhyw faterion na hysbysiadau ar hyn o bryd.

7 Diwygio'r heddlu

Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai swydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei diddymu o ddiwedd y tymor swydd presennol, ym mis Mai 2028. Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd y llywodraeth ei Phapur Gwyn ar ddiwygio'r heddlu hefyd, a oedd yn cynnwys manylion trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer plismona. Yng

Nghymru, mae hyn yn debygol o olygu sefydlu byrddau heddlu a throseddu, gydag arweinwyr awdurdodau lleol yn goruchwylio llywodraethu'r heddlu.

Ers y cyhoeddiadau hyn, mae'r comisiynwyr heddlu a throseddu a'u timau ledled Cymru wedi bod yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref i benderfynu sut y bydd byrddau'r heddlu a throseddu yn gweithredu yng Nghymru. Mae'r trefniadau manwl yn dal i gael eu cwblhau.

Mae Papur Gwyn y llywodraeth ar ddiwygio'r heddlu yn ceisio gwneud y canlynol: rhesymoli nifer yr heddluoedd ledled Cymru a Lloegr; creu Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol; a sicrhau bod heddluoedd yn symud i systemau a phrosesau safonol, gyda'r nod o leihau dyblygu a lleihau costau. Mae canfyddiadau cychwynnol yr adolygiad dan arweiniad yr Arglwydd Hogan-Howe i ofynion y Papur Gwyn i fod i gael eu cyhoeddi ddiwedd haf 2026.

O ystyried y newidiadau sylfaenol disgwyliedig i heddluoedd a llywodraethu plismona, mae ansicrwydd mawr yn bodoli o fewn plismona ar hyn o bryd. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant presennol, sy'n gweld gostyngiadau cyllid mewn termau real tan o leiaf 2028/2029.

Bydd paratoi'r datganiadau o gyfrifon blynyddol yn amserol ac yn gywir, a'u cyhoeddi a'u harchwilio, yn rhan hanfodol o drefniadau rheoli ariannol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu yn ystod y cyfnod trosglwyddo i'r trefniadau newydd.

8 Sail paratoi a chyflwyno

Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel endidau cyfreithiol ar wahân gynhyrchu eu datganiad o gyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon y grŵp, y mae cyfrifon y Comisiynydd wedi'u cynnwys ynddynt.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol baratoi datganiad o gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Mae cod ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi'i nodi fel un sy'n cynrychioli arferion priodol.

Mae'r canlynol yn esboniad o'r datganiadau isod, eu pwrpas a'r berthynas rhyngddynt:

- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon** - mae'r datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'i brif swyddog cyllid;
- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** - mae hwn yn nodi barn yr archwilydd allanol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ynghylch a yw cyfrifon y Prif Gwnstabl a gyflwynir yn rhoi 'darlun gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2025/2026;
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - mae'r datganiad craidd hwn yn crynhoi'r adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu a'u defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau troseddu yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys yr holl dreuliau o ddydd i ddydd ac incwm cysylltiedig ar sail croniadau, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a gwerth rhagamcanol gwirioneddol y buddion ymddeol a enillwyd gan weithwyr yn ystod y flwyddyn;

- **Mantolen** - mae'r datganiad craidd hwn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Prif Gwnstabl ar ddyddiad y fantolen. Nid oes gan y Prif Gwnstabl unrhyw gronfeydd wrth gefn i gyfrif amdanynt. Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw'r rhain. Asedau net, net i ddim trwy gyfrwng dyledwr a chredydwr o fewn y grŵp ar gyfer cyfalaf gweithio i gwrdd â dyledwyr, rhestrau eiddo a chredydwyr tymor byr;
- **Cyfrif cronfa bensiwn yr heddlu** - mae'r datganiad hwn yn dangos gwariant, incwm, asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â phensiynau'r heddlu yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrif yn dangos y grant atodol sy'n ddyledus gan y grŵp i gyfrif y gronfa bensiwn. Wedi hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r grŵp am arian a dalwyd i'r cyfrif ac yn tanysgrifennu'r diffyg i bob pwrpas. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai cyfrif y gronfa bensiwn yn dangos gwarged ar ddiwedd y flwyddyn;
- **Nodiadau i'r datganiadau ariannol** - mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n egluro ymhellach yr eitemau a gynhwysir yn y prif ddatganiadau gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darllenwyr o'r prif ddatganiadau ariannol. Maent yn nodi'r polisïau cyfrifo a ddefnyddir fel sail i baratoi'r datganiadau ariannol fel sy'n ofynnol gan y cod ymarfer;
- **Rhestr o eirfa** – mae'r rhain yn darparu naratif ychwanegol i egluro'r termau a ddefnyddir yn y datganiad gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darllenwyr fel sy'n ofynnol gan y cod ymarfer;
- **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** – nid yw'r datganiad hwn yn berthnasol o ystyried mai cyfrifoldeb y Comisiynydd yw'r holl gronfeydd wrth gefn;
- **Datganiad Llif Arian Parod** - nid yw'r datganiad hwn yn berthnasol gan fod cyfrifon banc yn cael eu dal gan y Comisiynydd ac yn cael eu gweithredu ar sail grŵp;
- **Dadansoddiad o Wariant a Chyllid** – ni chyflwynir Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ar wahân ar gyfer y Prif Gwnstabl gan y byddai'n rhoi darlun anghyflawn o'r datgeliadau gofynnol. Darperir dadansoddiad o wariant a chyllid grŵp yn natganiadau ariannol grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ac mae'n dangos y dadansoddiad cyflawn yn ôl yr angen; a
- Cyhoeddir **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar y Cyd** ar wahân i'r datganiad o gyfrifon hwn ac mae'n nodi manylion sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu dros eu materion. Mae'r datganiad yn ddogfen statudol ar gyfer pob corfforaeth undyn, er ei fod yn parhau i fod yn ddatganiad cyfunol ar gyfer 2025/2026. Nod hyn yw cynorthwyo tryloywder a dealltwriaeth i'r darllenydd, gan ddangos yn glir lle mae trefniadau'n gyson a lle maent yn gwahaniaethu rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r datganiad yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol.

Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddog Ariannol mewn perthynas â'r datganiad o gyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl

Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, a'r swyddog hwnnw yw'r prif swyddog ariannol;
- rheoli materion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau; a
- cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Cymeradwyaf y datganiad o gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026.

Prif Gwnstabl Dyfed-Powys **Dyddiad: 29 Medi 2026**

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Ariannol

Mae'r Prif Swyddog Ariannol yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r arferion priodol a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC (y Cod).

Wrth baratoi ei ddatganiad o gyfrifon, mae'r Prif Swyddog Ariannol wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth; a
- chydymffurfio â'r cod awdurdodau lleol.

Mae'r prif swyddog ariannol hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol; a
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Rwy'n ardystio bod y datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar y dyddiad adrodd ac o'i wariant a'i incwm am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026.

Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl **Dyddiad: 29 Medi 2026**

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys; a
- Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys ar 31 Mawrth 2026 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio rydw i wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifo am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r pryd y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â'r busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, gan eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel ei fod wedi cael ei gam-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau berthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, yn seiliedig ar y gwaith rydw i wedi'i gyflawni, rwy'n dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys a'r amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Cyd-ddatganiad Llywodraethiant

Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn eu hadrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ydynt wedi cael ymweliad â nhw fy nhîm; a
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu ei fod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau cyfrifon nad ydynt yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch nad yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn sylweddol os, yn unigol neu'n gyfanredol, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
Mae anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag anghysondebau, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymholi i'r rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys sy'n ymwneud â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu dwyll honedig; a'r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: diystyru rheoli a phostio cyfnodolion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys; a
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau datganiad ariannol a phrofi dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Cyd-bwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wyrdroi rheolaethau gan y tîm rheoli, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn wyliadwrus o unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid o ran canfod anghysondebau, effeithiolrwydd

rheolaethau Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a berfformir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynglŷn â, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Rwy’n ardystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chronfa Bensiwn Heddlu Dyfed Powys yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Cyfrifoldeb Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yw cynnal a chadw a chywirdeb ei wefan; nid yw’r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i’r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2024/2025					2025/2026		
Gwariant gros £'000	Incwm gros £'000	Gwariant net £'000	Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr	Nodiadau	Gwariant gros £'000	Incwm gros £'000	Gwariant net £'000
82,645	0	82,645	Tâl a phensiynau swyddogion heddlu		82,492	0	82,492
3,389	0	3,389	Goramser swyddogion yr heddlu		3,899	0	3,899
43,729	0	43,729	Tâl a phensiynau staff yr heddlu		46,178	0	46,178
296	0	296	Goramser staff yr heddlu		412	0	412
1,939	0	1,939	Costau eraill sy'n gysylltiedig â gweithwyr		1,966	0	1,966
5,474	0	5,474	Costau adeiladau		5,417	0	5,417
2,421	0	2,421	Costau trafnidiaeth		2,650	0	2,650
16,044	0	16,044	Cyflenwadau a gwasanaethau		17,063	0	17,063
5,065	0	5,065	Gwasanaethau asiantaeth a chontract		4,581	0	4,581
5,203	0	5,203	Costau ariannu cyfalaf *		5,468	0	5,468
166,205	**0**	**166,205**	**Cyfanswm cost gwasanaethau**		**170,126**	**0**	**170,126**
50,521	0	50,521	Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi	**7**	52,983	0	52,983
0	(216,726)	(216,726)	Costau comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp)		0	(223,109)	(223,109)
216,726	**(216,726)**	**0**	**Gwarged/diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau**		**223,109**	**(223,109)**	**0**
		(157,117)	Enillion/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn				11,302
		157,117	**Costau comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp)**				**(11,302)**
		0	**Cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr**				**0**

* I gynrychioli defnydd y Prif Gwnstabl o asedau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae'r Prif Gwnstabl yn derbyn taliadau sy'n cyfateb i'r ariannu cyfalaf a gafodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Cydnabyddir y tâl hwn yn y datganiadau incwm a gwariant cynhwysfawr.

Mantolen

31 Mawrth 2025 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2026 £'000
922,922	Dyledwyr hirdymor	16	952,315
922,922	**Asedau hirdymor**		**952,315**
521	Rhestrau eiddo		719
2,821	Dyledwyr Tymor Byr	9	2,563
(3,342)	Trosglwyddo o fewn grŵp		(3,282)
0	**Asedau cyfredol**		**0**
(19,911)	Credydwyr tymor byr	10	(21,627)
19,911	Trosglwyddo o fewn grŵp		21,627
0	**Rhwymedigaethau cyfredol**		**0**
(426)	Credydwyr hirdymor	10	(590)
426	Trosglwyddo o fewn grŵp		590
(922,922)	Rhwymedigaethau hirdymor eraill	16	(952,315)
(922,922)	**Rhwymedigaethau hirdymor**		**(952,315)**
0	**Asedau net/(rhwymedigaethau)**		**0**

Cronfa bensiwn yr heddlu

2024/2025 £'000		2025/2026 £'000
	Cyfraniadau derbyniadwy	
(19,728)	Cyfraniadau cyflogwyr	(20,794)
(444)	Incwm arall (cyfraniadau afiechyd cyflogwyr)	(427)
(7,763)	Cyfraniadau swyddogion	(8,041)
(27,935)	**Cyfraniadau derbyniadwy**	**(29,262)**
(476)	**Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill**	**(455)**
	Buddion sy'n daladwy	
38,575	Pensiynau	39,519
6,468	Cyfnewidiadau a buddion ymddeol cyfandaliadau	9,333
45,043	**Buddion sy'n daladwy**	**48,852**
	Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael	
83	Ad-dalu cyfraniadau	37
18	Taliadau treth cynllun yn talu	281
101	**Taliadau i'r rhai sy'n gadael ac ar gyfrif y rhai sy'n gadael**	**318**
	Trosglwyddiadau i mewn i gronfeydd pensiwn eraill	**511**
16,733	**Swm net sy'n daladwy am y flwyddyn**	**19,964**
(16,733)	Trosglwyddo o fewn grŵp	(19,964)
(16,733)	**Cyfanswm y trosglwyddiadau o fewn grŵp**	**(19,964)**
0	**Cyfanswm**	**0**

2024/2025 £'000	Datganiad asedau net	2025/2026 £'000
	Asedau cyfredol	
4,405	Dyledwr - grant sy'n ddyledus gan y Swyddfa Gartref	6,245
491	Dyledwr - gwerthoedd trosglwyddo sy'n ddyledus	99
52	Dyledwr - cyfraniadau McCloud a llog sy'n ddyledus o dan y cynllun unioni cam	86
4,948	**Asedau cyfredol**	**6,430**
	Rhwymedigaethau cyfredol	
(948)	Credydwr - taliadau sy'n ddyledus i swyddogion sy'n ymddeol	(897)
0	Credydwr – gwerthoedd trosglwyddo sy'n daladwy	(505)
(112)	Credydwr - lwfansau blynyddol yn daladwy i CThEF	(44)
(3,888)	Credydwr - balans net sy'n ddyledus i gronfa'r heddlu	(4,984)
(4,948)	**Rhwymedigaethau cyfredol**	**(6,430)**
0	**Asedau net**	**0**

Nodiadau i gyfrifon cronfa bensiwn yr heddlu

- Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddilynwyd, a'r rhagdybiaethau a wnaed, ynghylch cyfrif cronfa bensiwn yr heddlu yn unol â'r rhai a nodir yn Nodyn 1 - Polisïau Cyfrifyddu;

- Gweinyddir cynllun pensiwn yr heddlu gan Gyngor Sir Caerfyrddin o dan gytundeb lefel gwasanaeth;

- Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Mae'r taliadau i mewn ac allan o'r gronfa bensiwn yn cael eu mantoli i ddim bob blwyddyn trwy dderbyn cyfraniadau ychwanegol o gronfa gyffredinol yr heddlu, sydd yn ei thro yn cael ei had-dalu gan grant penodol gan y Swyddfa Gartref (grant atodol). Derbynnir y grant hwn gan y Comisiynydd a'i drosglwyddo i'r Prif Gwnstabl ar ffurf trosglwyddiad o fewn grŵp; a

- Nid yw datganiadau ariannol y gronfa bensiwn yn ystyried rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar ôl 31 Mawrth 2026. Fodd bynnag, cyflwynir y rhain ar y fantolen o dan 'Rhwymedigaethau hirdymor eraill', gyda datgeliadau manwl yn Nodyn 16 - Cynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio.

Nodiadau i'r cyfrifon

1. Polisïau cyfrifyddu

Egwyddorion cyffredinol

Mae'r datganiad o gyfrifon yn crynhoi trafodion y Prif Gwnstabl ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/2026 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2026. Mae'n ofynnol i'r Prif Gwnstabl baratoi datganiad o gyfrifon blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'u diwygiwyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arfer hwn yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025/2026, a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y datganiad o gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu drwy ailbrisio rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Addasiadau cyfnod blaenorol, newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon a gwallau

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi oherwydd newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu, neu i gywiro gwallau perthnasol. Rhoddir cyfrif am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol y bydd y newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu oni bai bod hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu lle mae'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar y sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol. Pan wneir

newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i gymhwyso erioed.

Mae gwallau sylweddol a ddarganfyddir yn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

Croniadau incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid yn unig pan wneir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio. Lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'r dyddiad y'u defnyddir, cânt eu cario fel rhestr eiddo ar y fantolen.
- Mae treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Lle mae refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, mae dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y fantolen. Lle mae'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

Gorbenion a gwasanaethau cymorth

Codir costau gorbenion a gwasanaethau cymorth ar segmentau gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

Eitemau eithriadol

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn dibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Prif Gwnstabl.

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r datganiad o gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r datganiad o gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad awdurdodi cyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad o gyfrifon.

Offerynnau ariannol

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff y rhain eu mesur i ddechrau ar werth teg a chânt eu cario yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio.

Asedau ariannol

Mae'r asedau ariannol a ddelir gan y Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn yn asedau ariannol sydd â thaliadau sefydlog neu y gellir eu pennu ac nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithredol.

Trosi arian tramor

Pan fo'r Prif Gwnstabl wedi bod yn rhan o drafodiad mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar y dyddiad y daeth y trafodiad i rym.

Rhestrau eiddo

Cynhwysir rhestrau eiddo yn y fantolen yn ôl pris cost cyfredol. Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 2 yn nodi y dylid mesur rhestrau eiddo yn ôl y gost isaf a'r gwerth gwireddadwy net. Nid yw'r polisi felly yn cydymffurfio ag IAS 2, ond nid yw'r gwahaniaeth yn sylweddol.

Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Prif Gwnstabl y bydd eu bodolaeth ond yn cael eu cadarnhau gan ddigwyddiad neu ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Prif Gwnstabl. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen llif allan o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Ni chydnabyddir rhwymedigaethau digwyddiadol yn y fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Trefniadau ar y cyd - Cyfrifyddu am gyfuno trefniadau ar y cyd

Lle mae'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol gyda chomisiynwyr a phrif gwnstabliaid eraill, mae asesiad wedi'i wneud yn erbyn cyd-drefniadau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 11 i benderfynu ar y driniaeth gyfrifyddu briodol. Mae IFRS 11 yn ei gwneud yn ofynnol i bob trefniant o'r fath gael ei ddosbarthu naill ai fel mentrau ar y cyd neu weithrediadau ar y cyd. Mae holl drefniadau o'r fath gan y Comisiynydd/Prif Gwnstabl yn cael eu dosbarthu fel gweithrediadau ar y cyd lle mae gan y Comisiynydd/Prif Gwnstabl hawl i'w cyfran deg o asedau a rhwymedigaethau'r cydweithrediad.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Nodyn 11 - Trefniadau Cydweithredol.

Buddion i weithwyr

Buddion taladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion tymor byr cyflogeion yw'r rhai sydd i'w setlo o fewn deuddeg mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, bonysau a buddion anariannol (e.e. ceir) ar gyfer gweithwyr presennol, ac fe'u cydnabyddir fel treuliau am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn darparu gwasanaeth. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (gan gynnwys amser o'r gwaith yn lle tâl a gwyliau hyblyg) a enillwyd

gan weithwyr ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn, y gall gweithwyr eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar gyfraddau cyflog sy'n gymwys yn y flwyddyn gyfrifo ganlynol, sef y cyfnod y mae'r gweithiwr yn cymryd y buddiant ynddo. Mae'r croniad yn cael ei godi ar warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau, ond yna'n cael ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel bod buddion gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd ynddi. Mae'r datganiad symudiad mewn cronfeydd wrth gefn wedi'i gynnwys yn y datganiad o gyfrifon grŵp.

Buddion terfynu

Mae buddion terfynu yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol.

Lle mae buddion terfynu yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y gronfa gyffredinol gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y grŵp i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol. Yn y datganiad symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, mae angen dyraniadau i'r gronfa bensiwn ac ohoni i ddileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu pensiwn a rhoi debydau yn eu lle am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion ôl-gyflogaeth

Mae gan swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yr opsiwn o berthyn i un o ddau gynllun pensiwn ar wahân sy'n berthnasol iddynt:

- Cynllun Pensiwn yr Heddlu, a weinyddir drwy Gronfa Bensiwn yr Heddlu.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion wedi'u diffinio i aelodau (cyfandaliadau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r grŵp.

Mae'r Cynllun Pensiwn Heddlu hwn 'heb ei ariannu' sy'n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi yn cael eu cronni i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol, ac felly nid oes unrhyw ddarpariaeth i fodloni'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol wedi'i chynnwys yn y fantolen. Mae rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n briodol i'r grŵp wedi'u cynnwys yn y fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau – h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant gweithwyr ac ati, a rhagamcanion o enillion ar gyfer gweithwyr presennol.

Buddion yn ôl disgresiwn

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau yn ôl disgresiwn o fuddion ymddeol yn achos ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau a amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Treth ar werth (TAW)

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel treuliau dim ond i'r graddau nad yw'r grŵp yn gallu eu hadennill oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Nid yw'r TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i gynnwys mewn incwm.

2. Addasiadau cyfnod blaenorol

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol sy'n effeithio ar ddatganiad cyfrifon y Prif Gwnstabl ar gyfer 2025/2026.

3. Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond heb eu mabwysiadu eto

Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y cod.

Y safonau a gyflwynwyd gan god 2026/2027 lle mae datgeliadau'n ofynnol yn natganiadau ariannol 2025/2026, yn unol â gofynion paragraff 3.3.4.3 o'r cod yw:

- *Diwygiadau i Safon Adrodd Ariannol 102 Y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (diwygiadau i asedau treftadaeth)* - a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024.
- *Diwygiadau i ddosbarthiad a mesur offerynnau ariannol (diwygiadau i IFRS 9 ac IFRS 7)* - a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024.
- *Gwelliannau blynyddol i safonau cyfrifyddu IFRS – Cyfrol 11* - a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024.
- *Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan sy'n Ddibynnol ar Natur (Gwelliannau i IFRS 9 ac IFRS 7)* - a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

Rhagwelir na fydd y newidiadau uchod yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol cyfredol. Wrth lunio'r datganiadau ariannol ar gyfer 2026/2027, bydd effaith y newidiadau yn cael eu hailasesu ac os oes angen, bydd y ffigurau cymharol yn cael eu hailddatgan.

4. Dyfarniadau hollbwysig wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

Fel rhan o raglen diwygio'r heddlu, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ym mis Tachwedd 2025 y byddai y comisiynwyr heddlu a throseddu yn cael eu diddymu o fis Mai 2028. Wedi hynny, nodwyd diwygiadau ehangach yn y Papur Gwyn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, gan gynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau llywodraethu'r heddlu, mecanweithiau ariannu yn y dyfodol, sefydlu Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol a'r posibilrwydd o ailstrwythuro trefniadau heddlu presennol.

Mae'r rheolwyr wedi arfer barn wrth asesu goblygiadau cyfrifyddu'r cynigion hyn ac er bod y bwriad i ddiddymu y comisiynwyr heddlu a throseddu wedi'i gyhoeddi, mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynghylch y model llywodraethu olynol, trosglwyddo cyfrifoldebau statudol, trefniadau ariannu yn y dyfodol a pherchnogaeth ac atebolrwydd asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd

wrth gefn. Yn ogystal, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch strwythur plismona yn y dyfodol yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw newidiadau i ffiniau heddluoedd presennol neu drefniadau sefydliadol.

Mae uwch-swyddogion o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgorau diwygio cenedlaethol a rhanbarthol, gan roi gweledded i gynigion sy'n dod i'r amlwg a chyfrannu at drafodaethau ar fodelau llywodraethu, cyllido a gweithredu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae ffurf derfynol a goblygiadau ariannol y diwygiadau yn parhau i fod yn amodol ar benderfyniadau'r llywodraeth a newid deddfwriaethol.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, nid oes digon o sicrwydd ynghylch natur, amseriad a chanlyniadau ariannol y diwygiadau i benderfynu ar eu heffaith. O ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiadau i'r datganiadau ariannol mewn perthynas â'r cynigion hyn. Mae goblygiadau'r rhaglen ddiwygio yn parhau i gael eu hystyried mewn byrddau strategol, trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig ac fel rhan o'r asesiad sy'n cefnogi sail busnes gweithredol y paratoad.

5. Rhagdybiaethau a phrif ffynonellau eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan y Prif Gwnstabl am y dyfodol, neu ffigurau sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym mantolen y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2026 y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os bydd canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i dybiaethau
Atebolrwydd pensiynau	Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau i oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Cyflogir cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol ar y tybiaethau i'w cymhwyso.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn atebolrwydd pensiwn net mewn tybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.25% yn y dyfarniad cyflog ar gyfer cynllun pensiwn swyddogion yr heddlu yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaeth Cronfa Bensiwn yr Heddlu o £952 miliwn i £957 miliwn.

6. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdodwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft i'w gyhoeddi gan y Prif Swyddog Ariannol ar 30 Mehefin 2026.

Cymeradwywyd y Datganiad Archwiliedig o gyfrifon gan y Prif Swyddog Ariannol yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ar 29 Medi 2026. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd a fyddai'n effeithio ar sefyllfa ariannol y Prif Gwnstabl ar gyfer 2025/2026.

7. Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi

Mae'r llinell hon yn cynnwys eitemau corfforaethol o incwm a gwariant sy'n deillio o ymwneud ag offerynnau ariannol a thrafodion tebyg yn ymwneud â llog.

2024/2025 £'000		Nodiadau	2025/2026 £'000
50,521	Cost llog pensiynau ac adenillion disgwyliedig ar asedau pensiwn	16	52,983
50,521	**Cyfanswm**		**52,983**

8. Offerynnau ariannol gan gynnwys natur a maint y risgiau sy'n codi

Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n ysgwyddo'r risgiau a'r gwobrau ariannol ac mae'r cyfrifyddu, y nodiadau a'r datgeliadau ategol yn cael eu cadw o fewn cyfrifon y grŵp.

9. Dyledwyr

Dyledwyr tymor byr

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
2,821	Rhagdaliadau	2,561
0	Symiau derbyniadwy eraill	2
2,821	**Cyfanswm**	**2,563**

10. Credydwyr

Credydwyr hirdymor

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
(426)	Addasiad cyfran deg cydweithio	(379)
0	Credydwyr hirdymor eraill - cetris taser	(211)
(426)	**Cyfanswm**	**(590)**

Credydwyr tymor byr

31 Mawrth 2025 £'000		31 Mawrth 2026 £'000
(3,157)	Symiau taladwy drwy fasnach	(4,421)
(14,465)	Symiau taladwy eraill	(16,546)
(2,289)	Derbynebau ymlaen llaw	(660)
(19,911)	**Cyfanswm**	**(21,627)**

11. Trefniadau cydweithredol

Mae gan heddluoedd Cymru hanes hir a llwyddiannus o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd o dan gylch gorchwyl Cyd-bwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Bydd cydweithredu yn y dyfodol yn cael ei ysgogi gan yr angen i fodloni'r gofyniad plismona strategol a chan ganlyniadau'r asesiad strategol rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth de Cymru.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu pob heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y gofyniad plismona strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, bydd y Comisiynydd yn ceisio gweithio ar y cyd â chomisiynwyr a heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Rheoleiddir cytundebau o'r fath gan adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithredol a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau llywodraethu diwygiedig y Comisiynydd a'r heddlu. Mae'r rhain i bob pwrpas yn cael eu hystyried yn 'gyllidebau cyfun' gyda chytundebau ar gyfer cyfraniadau ariannu yn cael eu gwneud a'u hamrywio o bryd i'w gilydd, gyda chefnogaeth rhai grantiau penodol gan y llywodraeth. Caiff y cyllidebau cyfun eu cynnal i bob pwrpas gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar ran y pedwar heddlu yng Nghymru.

Cyfanswm costau'r tîm cydweithredol yn 2025/2026 oedd £577,000 (2024/2025 £506,000) a chyfraniad Heddlu Dyfed-Powys at y costau hyn oedd £148,000 yn 2025/2026 (2024/2025 £130,000).

Isod cyflwynir incwm a gwariant prif weithgareddau'r unedau cydweithredol ynghyd â'r cyfraniadau cyllid a wnaed gan bob heddlu sy'n cymryd rhan.

Wedi'i gynnwys mewn polisïau cyfrifyddu o dan drefniadau cydweithredol mae esboniad o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer gweithrediadau ar y cyd. Mae IFRS 11, cyfrifyddu ar gyfer trefniadau ar y cyd, yn ei gwneud yn ofynnol i incwm a gwariant fod yn destun triniaeth gyfrifo wahanol i'r hyn yr aed iddo mewn gwirionedd. Yn unol â hynny, mae gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cynyddu o £3,196,000 (2024/2025: £2,397,000) ac mae incwm/grantiau wedi cynyddu o £3,244,000 (2024/2025: £2,343,000); gostyngiad net mewn gwariant o £48,000 (2024/2025: cynnydd o £54,000). Mae'r gostyngiad net hwn wedi'i wrthdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn heb unrhyw effaith ar falans Cronfa'r Heddlu.

Mae asedau, dyledwyr a chredydwyr mewn perthynas â'r trefniadau wedi aros ym mantolenni'r heddluoedd unigol gan nad ystyrir bod y balansau'n berthnasol.

Roedd y datganiadau gwariant ac incwm ar gyfer 2025/2026 ar gyfer y prif drefniadau cydweithredol fel a ganlyn:

Dosbarthiad gwasanaeth	Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth/adran arbennig Plismona cenedlaethol £'000	Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth Plismona cenedlaethol £'000	Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol Plismona cenedlaethol £'000	Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol Cudd-wybodaeth Ymchwilio £'000	Tasglu rhanbarthol Cudd-wybodaeth £'000	Cyd-uned arfau tanio Gweithrediadau arbenigol £'000	Cyfanswm £'000
Gwariant ar gyflogau	11,189	651	3,886	14,940	2,142	17,160	**49,968**
Gwariant nad ydyw'n ymwneud â chyflogau	2,689	38	1,988	2,184	501	2,661	**10,061**
Gwariant gros	**13,878**	**689**	**5,874**	**17,124**	**2,643**	**19,821**	**60,029**
Incwm grant penodol	(13,824)	(689)	(5,867)	(9,887)	0	(1,697)	**(31,964)**
Incwm	(54)	0	(7)	(103)	(26)	(686)	**(876)**
Cyfanswm incwm a grantiau	**(13,878)**	**(689)**	**(5,874)**	**(9,990)**	**(26)**	**(2,383)**	**(32,840)**
(Gwarged) neu ddiffyg - i'w ariannu o gyfraniadau'r heddlu fel a ganlyn	**0**	**0**	**0**	**7,134**	**2,617**	**17,438**	**27,189**
Heddlu Dyfed-Powys	0	0	0	(1,451)	(532)	(5,231)	**(7,214)**
Gwent	0	0	0	(1,853)	(680)	(3,488)	**(6,021)**
De Cymru	0	0	0	(3,830)	(1,405)	(8,719)	**(13,954)**
Cyfanswm cyfraniadau'r heddlu	**0**	**0**	**0**	**(7,134)**	**(2,617)**	**(17,438)**	**(27,189)**

Dyma gyfraniad pob heddlu at wariant ac incwm ar gyfer 2025/2026:

Dosbarthiad gwasanaeth a sail dosraniad y cytunwyd arni	Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth/adran arbennig	Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth	Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol	Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol	Tasglu rhanbarthol	Cyd-uned arfau tanio	Cyfanswm
	Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Cudd-wybodaeth (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000	Gweithrediadau arbenigol (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000	£'000
Heddlu Dyfed-Powys	2,283	113	410	3,606	538	5,946	**12,896**
Gwent	2,620	130	470	4,139	686	3,964	**12,009**
Gogledd Cymru*	3,036	151	3,929	0	0	0	**7,116**
De Cymru	5,939	295	1,065	9,379	1,419	9,911	**28,008**
Gwariant gros	**13,878**	**689**	**5,874**	**17,124**	**2,643**	**19,821**	**60,029**
Heddlu Dyfed-Powys	(2,283)	(113)	(410)	(2,104)	(5)	(715)	**(5,630)**
Gwent	(2,620)	(130)	(470)	(2,414)	(7)	(477)	**(6,118)**
Gogledd Cymru	(3,036)	(151)	(3,929)	0	0	0	**(7,116)**
De Cymru	(5,939)	(295)	(1,065)	(5,472)	(14)	(1,191)	**(13,976)**
Cyfanswm incwm a grantiau	**(13,878)**	**(689)**	**(5,874)**	**(9,990)**	**(26)**	**(2,383)**	**(32,840)**

** Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio ei gostau swyddogion diogelu dynodedig ar incwm a gwariant yn hytrach na dyraniad yn seiliedig ar boblogaeth Cymru. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tasglu rhanbarthol, sy'n gweithredu yn heddluoedd de Cymru. Ar gyfer yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn Cyfrannu at Ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.*

Mae datganiadau gwariant ac incwm ar gyfer 2024/2025 ar gyfer y prif drefniadau cydweithredol fel a ganlyn:

Dosbarthiad gwasanaeth	Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth/ adran arbennig Plismona cenedlaethol £'000	Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth Plismona cenedlaethol £'000	Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol Plismona cenedlaethol £'000	Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol Cudd-wybodaeth Ymchwilio £'000	Tasglu rhanbarthol Cudd-wybodaeth £'000	Cyd-uned arfau tanio Gweithrediadau arbenigol £'000	Cyfanswm £'000
Gwariant ar gyflogau	9,656	651	3,774	13,950	1,793	15,897	45,721
Gwariant nad ydyw'n ymwneud â chyflogau	1,934	75	1,086	2,254	584	2,594	8,527
Gwariant gros	**11,590**	**726**	**4,860**	**16,204**	**2,377**	**18,491**	**54,248**
Incwm grant penodol	(11,532)	(726)	(4,859)	(7,571)	0	(1,415)	(26,103)
Incwm	(58)	0	(1)	(67)	(72)	(738)	(936)
Cyfanswm incwm a grantiau	**(11,590)**	**(726)**	**(4,860)**	**(7,638)**	**(72)**	**(2,153)**	**(27,039)**
(Gwarged) neu ddiffyg - i'w ariannu o gyfraniadau'r heddlu fel a ganlyn	**0**	**0**	**0**	**8,566**	**2,305**	**16,338**	**27,209**
Heddlu Dyfed-Powys	0	0	0	(1,742)	(469)	(4,901)	**(7,112)**
Gwent	0	0	0	(2,225)	(599)	(3,268)	**(6,092)**
De Cymru	0	0	0	(4,599)	(1,237)	(8,169)	**(14,005)**
Cyfanswm cyfraniadau'r heddlu	**0**	**0**	**0**	**(8,566)**	**(2,305)**	**(16,338)**	**(27,209)**

Dyma gyfraniad pob heddlu tuag at wariant ac incwm ar gyfer 2024/2025:

Dosbarthiad gwasanaeth a sail dosraniad y cytunwyd arni	Uned cudd-wybodaeth gwrthderfysgaeth/adran arbennig	Cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth	Porth gwrthderfysgaeth/diogelwch penodol	Uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol	Tasglu rhanbarthol	Cyd-uned arfau tanio	Cyfanswm £'000
	Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Plismona Cenedlaethol (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Cudd-wybodaeth/ Ymchwilio (Poblogaeth – sail budd cenedlaethol) £'000	Cudd-wybodaeth (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000	Gweithrediadau arbenigol (cyfraniad ariannol cytunedig – darpariaeth leol) £'000	
Heddlu Dyfed-Powys	1,914	120	417	3,425	484	5,547	**11,907**
Gwent	2,181	137	475	3,902	617	3,698	**11,010**
Gogledd Cymru*	2,534	159	2,889	0	0	0	**5,582**
De Cymru	4,961	310	1,079	8,877	1,276	9,246	**25,749**
Gwariant gros	**11,590**	**726**	**4,860**	**16,204**	**2,377**	**18,491**	**54,248**
Heddlu Dyfed-Powys	(1,914)	(120)	(417)	(1,614)	(15)	(646)	**(4,726)**
Gwent	(2,181)	(137)	(475)	(1,840)	(19)	(431)	**(5,083)**
Gogledd Cymru	(2,534)	(159)	(2,889)	0	0	0	**(5,582)**
De Cymru	(4,961)	(310)	(1,079)	(4,184)	(38)	(1,076)	**(11,648)**
Cyfanswm incwm a grantiau	**(11,590)**	**(726)**	**(4,860)**	**(7,638)**	**(72)**	**(2,153)**	**(27,039)**

Nid yw gwariant yr Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth ar gyfer 2024/25 yn cynnwys £197,000 o gostau pensiwn y cyflogwr a ariannwyd yn uniongyrchol gan luoedd cartref y swyddogion. Ni ellir ailddosbarthu'r gwariant hwn ar sail gydweithredol ac felly ni ystyrir ei fod o fewn cwmpas y nodyn hwn.

Nid yw gwariant cynghorwyr arbenigol gwrthderfysgaeth ar gyfer 2024/25 yn cynnwys £5,000 o gostau pensiwn y cyflogwr a ariannwyd yn uniongyrchol gan luoedd cartref y swyddogion. Ni ellir ailddosbarthu'r gwariant hwn ar sail gydweithredol ac felly ni ystyrir ei fod o fewn cwmpas y nodyn hwn.

Mae gwariant gwrthderfysgaeth ar gyfer porthladdoedd/diogelwch ymroddedig ar gyfer 2024/2025 yn eithrio £89,000 o gostau pensiwn y cyflogwr a ariannwyd yn uniongyrchol gan luoedd cartref y swyddogion. Ni ellir ailddosbarthu'r gwariant hwn ar sail gydweithredol ac felly ni ystyrir ei fod o fewn cwmpas y nodyn hwn.

** Mae Heddlu Gogledd Cymru yn seilio ei gostau swyddogion diogelu dynodedig ar incwm a gwariant yn hytrach na dyraniad yn seiliedig ar boblogaeth Cymru. Nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tasglu rhanbarthol, sy'n gweithredu yn heddluoedd de Cymru. Ar gyfer yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu at Ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.*

Maes Tanio'r Tri Heddlu – Prosiect Cyfalaf

Mae Prosiect Maes Tanio'r Tri Heddlu yn brosiect cyfalaf ar y cyd rhwng Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed-Powys i adeiladu a gweithredu ased ar y cyd a fydd yn darparu cyfleuster hyfforddi gweithredol newydd ar gyfer y cyd-uned arfau tanio. Mae'r ased yn cael ei adeiladu o fewn ardal Heddlu De Cymru ond bydd yn cael ei ariannu, ei berchen a'i weithredu ar y cyd gan y tri heddlu.

Cyfanswm y gwariant ar yr asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu ar 31 Mawrth 2025 oedd £26,328,000, gyda gwariant o £25,06,000 yn ystod blwyddyn ariannol 2025/2026, gan roi gwariant ased sydd wrthi'n cael ei adeiladu o £51,392,000 ar 31 Mawrth 2026. Dangosir dadansoddiad o'r gwariant hwn a'r cyllid ar ei gyfer gan y tri heddlu partner yn y tabl isod:

Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu 2025/2026	**Heddlu Dyfed-Powys** **26.72%**	**Heddlu De Cymru** **44.35%**	**Heddlu Gwent** **28.93%**	**Cyfanswm**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	**7,035**	**11,676**	**7,617**	**26,328**
Gwariant yn ystod y flwyddyn	6,697	11,116	7,251	**25,064**
Balans terfynol ar 31 Mawrth	**13,732**	**22,792**	**14,868**	**51,392**

12. Taliadau cydnabyddiaeth swyddogion

Uwch-weithwyr – roedd y taliadau cydnabyddiaeth a dalwyd i uwch-weithwyr y Prif Gwnstabl yn 2025/2026 fel a ganlyn:

	O	I	Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2026 neu'r dyddiad gorffen £	Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - ceir ar brydles £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - adleoli a rhent £	Talu yn lle rhybudd / taliad ymadael £	Cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £	Cyfraniadau pensiwn £	Cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £
Prif Gwnstabl	01/04/2025	15/06/2025	**199,734**	40,211	0	0	0	**40,211**	14,194	**54,405**
Prif Gwnstabl	07/10/2025	31/03/2026	**188,658**	91,286	0	0	0	**91,286**	32,224	**123,510**
Prif Gwnstabl (Dros Dro)	16/06/2025	06/10/2025	**188,658**	56,593	0	0	0	**56,593**	19,977	**76,570**
Dirprwy Brif Gwnstabl (Dros Dro)	16/06/2025	31/03/2026	**155,643**	122,000	3,897	0	0	**125,897**	43,066	**168,963**
Dirprwy Brif Gwnstabl	01/04/2025	15/06/2025	**149,799**	30,356	1,773	0	0	**32,129**	10,716	**42,845**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Dros Dro) [2]	15/02/2026	31/03/2026	**125,190**	15,649	984	0	0	**16,633**	4,731	**21,364**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Dros Dro) [2]	16/06/2025	31/03/2026	**125,190**	98,129	4,757	0	0	**102,886**	34,640	**137,526**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Dros Dro)	01/04/2025	15/06/2025	**120,489**	25,102	2,005	0	0	**27,107**	8,861	**35,968**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Dros Dro) – Cydweithrediad Cymru Gyfan [1]	01/04/2025	04/02/2026	**133,116**	104,505	0	0	0	**104,505**	36,890	**141,395**
Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Swyddog Ariannol i'r Prif Gwnstabl	01/04/2025	31/03/2026	**112,572**	110,681	0	0	0	**110,681**	18,594	**129,275**
Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad	01/04/2025	31/03/2026	**99,015**	97,351	0	0	0	**97,351**	16,355	**113,706**
Cyfanswm 2025/2026				**791,863**	**13,416**	**0**	**0**	**805,279**	**240,248**	**1,045,527**

[1] Cafodd 25% o gostau'r swydd hon eu hariannu gan grant Plismona Gwrthderfysgaeth, a rhannwyd 75% o'r costau rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru sy'n cymryd rhan yng Nghydweithrediad Heddlu Cymru. Cyfran Heddlu Dyfed-Powys o'r costau hyn ar gyfer 2025/2026 oedd £29,457.

[2] Tra bod un Prif Gwnstabl cynorthwyol allan o'r heddlu, yn mynychu'r Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol bu cyfnod pan fo dau brif gwnstabl cynorthwyol wedi'u cyflogi.

Darperir cerbyd ar gyfer rôl y Prif Gwnstabl, ond nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu treth incwm mewn perthynas â'r budd gan fod y swyddog hwn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag adran 248A o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003, sy'n nodi: '1) Mae'r adran hon yn gymwys pan sicrheir bod a) cerbyd brys ar gael i unigolyn sy'n cael ei gyflogi mewn gwasanaeth brys at ddefnydd preifat yr unigolyn a b) y telerau ar gyfer sicrhau ei fod ar gael iddo yn gwahardd ei ddefnyddio'n breifat ac eithrio pan fydd yr unigolyn ar alwad neu'n cymryd rhan mewn cymudo ar alwad ac c) nad yw'r unigolyn yn gwneud defnydd preifat o'r cerbyd ac eithrio o dan amgylchiadau o'r fath. 2) Nid oes unrhyw atebolrwydd i'r dreth incwm yn codi yn rhinwedd Pennod 6 neu 10 neu Ran 3 (buddion trethadwy: ceir, faniau ac ati a'r rhwymedigaeth weddilliol i'w chodi) mewn perthynas â'r budd-dal.

Uwch-weithwyr – Roedd y taliad cydnabyddiaeth a dalwyd i uwch-weithwyr y Prif Gwnstabl yn 2024/2025 fel a ganlyn:

	O	I	Cyflog cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2025 neu'r dyddiad gorffen £	Cyflog gwirioneddol, gan gynnwys lwfansau £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - ceir ar brydles £	Buddion mewn nwyddau neu wasanaethau - adleoli a rhent £	Talu yn lle rhybudd / taliad ymadael £	Cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn £	Cyfraniadau pensiwn £	Cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth gan gynnwys cyfraniadau pensiwn £
Prif Gwnstabl	01/04/2024	31/03/2025	**191,331**	186,379	0	0	0	**186,379**	65,792	**252,171**
Dirprwy Brif Gwnstabl [2]	21/07/2024	31/03/2025	**144,687**	99,996	6,950	0	0	**106,946**	35,298	**142,244**
Dirprwy Brif Gwnstabl (Dros Dro) [2]	01/04/2024	31/08/2024	**138,127**	57,640	3,316	0	0	**60,956**	20,029	**80,985**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol	01/04/2024	20/07/2024	**122,307**	37,152	3,037	0	0	**40,189**	13,115	**53,304**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol (Dros Dro)	21/07/2024	31/03/2025	**120,489**	83,272	7,059	0	0	**90,331**	29,395	**119,726**
Prif Gwnstabl Cynorthwyol – Cydweithrediad Cymru Gyfan (Dros Dro) [1]	06/01/2025	31/03/2025	**120,489**	28,521	0	0	0	**28,521**	10,061	**38,582**
Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Swyddog Ariannol i'r Prif Gwnstabl	01/04/2024	31/03/2025	**108,033**	105,992	0	0	0	**105,992**	17,807	**123,799**
Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad	01/04/2024	31/03/2025	**93,024**	91,267	0	0	0	**91,267**	15,333	**106,600**
Cyfanswm 2024/2025				**690,219**	**20,362**	**0**	**0**	**710,581**	**206,830**	**917,411**

[1] Cafodd 25% o gostau'r swydd hon eu hariannu gan grant Plismona Gwrthderfysgaeth, a rhannwyd 75% o'r costau rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru sy'n cymryd rhan yng Nghydweithrediad Heddlu Cymru. Cyfran Heddlu Dyfed-Powys o'r costau hyn ar gyfer 2024/2025 oedd £8,038.

[2] Oherwydd natur y rôl hon, bu cyfnod byr pan fo dau ddirprwy brif gwnstabl wedi'u cyflogi er mwyn galluogi trosglwyddo'r rôl

Darperir cerbyd ar gyfer rôl y Prif Gwnstabl, ond nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu treth incwm mewn perthynas â'r budd gan fod y swyddog hwn ar alwad drwy'r amser. Mae hyn yn unol ag adran 248A o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003, sy'n nodi: '1) Mae'r adran hon yn gymwys pan sicrheir bod a) cerbyd brys ar gael i unigolyn sy'n cael ei gyflogi mewn gwasanaeth brys at ddefnydd preifat yr unigolyn a b) y telerau ar gyfer sicrhau ei fod ar gael iddo yn gwahardd ei ddefnyddio'n breifat ac eithrio pan fydd yr unigolyn ar alwad neu'n cymryd rhan mewn cymudo ar alwad ac c) nad yw'r unigolyn yn gwneud defnydd preifat o'r cerbyd ac eithrio o dan amgylchiadau o'r fath. 2) Nid oes unrhyw atebolrwydd i'r dreth incwm yn codi yn rhinwedd Pennod 6 neu 10 neu Ran 3 (buddion trethadwy: ceir, faniau ac ati a'r rhwymedigaeth weddilliol i'w chodi) mewn perthynas â'r budd-dal.

Gweithwyr eraill (ag eithrio uwch-swyddogion – wedi'u rhestru uchod)

Gweithwyr eraill y Prif Gwnstabl a gafodd fwy na £60,000 o daliadau cydnabyddiaeth am y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) mewn bandiau o £5,000 oedd:

2024/2025 Nifer y gweithwyr		2025/2026 Nifer y gweithwyr
107	£60,000 - £64,999	116
71	£65,000 - £69,999	94
13	£70,000 - £74,999*	36
3	£75,000 - £79,999	12
8	£80,000 - £84,999	6
2	£85,000 - £89,999	2
5	£90,000 - £94,999	4
2	£95,000 - £99,999	6
4	£100,000 - £104,999	2
3	£105,000 - £109,999	4
0	£110,000 - £114,999	0
0	£115,000 - £119,999	0
0	£120,000 - £124,999	1
0	£125,000 - £129,999	0

* Mae'r tâl yn cynnwys iawndal am golli swydd yn 2025/2026

Cyflogau dros £150,000

Roedd gan dri swyddog heddlu gyflog blynyddol o dros £150,000 yn 2025/2026. Y tri swyddog oedd:

Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl – £199,734 (gadawodd ar 15 Mehefin 2025)

Ifan Charles, Prif Gwnstabl – £188,658

Gary Phillips, Dirprwy Brif Gwnstabl (dros dro) – £155,643

Yn 2024/2025, dim ond un swyddog heddlu oedd yn y categori hwn – Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl – £191,331.

Cymhareb taliadau cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth ganlynol am gymhareb tâl gael ei datgelu.

a) taliad cydnabyddiaeth Prif Gwnstabl y corff yn ystod y flwyddyn y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi;

b) y cyflog canolrifol cyfwerth ag amser llawn ar gyfer holl weithwyr y corff mewn swydd ar 31 Mawrth 2026; a'r

c) gymhareb rhwng y swm yn is-baragraff (a) a'r swm yn is-baragraff (b).

Mae taliad cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog sylfaenol, goramser, lwfansau a buddion mewn nwyddau neu wasanaethau.

Tâl blynyddol y Prif Gwnstabl oedd £188,658 ar gyfer 2025/2026 (2024/2025: £191,331). Ni dderbyniodd y Prif Gwnstabl unrhyw fuddiant mewn nwyddau yn ystod 2025/2026 (2024/2025: dim).

Canolrif cydnabyddiaeth cyfwerth ag amser llawn holl weithwyr y Prif Gwnstabl ar 31 Mawrth 2026 oedd £42,303 (2024/2025: £40,781).

Y gymhareb rhwng cydnabyddiaeth y Prif Gwnstabl a chanolrif cydnabyddiaeth gweithwyr y Prif Gwnstabl oedd 4:46:1 (2024/2025: 4:69:1).

Aelodau

Mae'r cynllun llywodraethu yn nodi y dylai treuliau aelodau gael eu rhannu'n gyfartal rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn 2025/2026, cyfanswm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd oedd £13,000 (2024/2025: £10,000). Gan nad yw 50% o'r swm hwn yn sylweddol, nid yw'r costau wedi'u cyfrif yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl ond maent wedi'u cyfrif yn llawn yng nghyfrifon y grŵp.

13. Costau archwilio allanol

Aeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar y cyd i gostau mewn perthynas ag archwilio'r datganiad o gyfrifon a ddarparwyd gan archwilwyr allanol Heddlu Dyfed-Powys. Yn ogystal â'r symiau isod, gwnaed taliad pellach o £29,000 mewn perthynas â gwaith atodol a wnaed mewn cysylltiad â datganiad o gyfrifon 2024/2025.

2024/2025 £'000	Maes gwaith archwilio	2025/2026 £'000
105	Ffioedd sy'n daladwy i Archwilio Cymru ynghylch gwasanaethau archwilio allanol a gyflawnir o dan y Cod Arferion Archwilio a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru	110
105	**Cyfanswm**	**110**

14. Partïon cysylltiedig

Mae IAS24 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Gwnstabl ddatgelu trafodion sylweddol gyda phartïon cysylltiedig, h.y. cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Prif Gwnstabl, neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan y Prif Gwnstabl. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i ddarllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Prif Gwnstabl fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gydag ef.

Mae'r nodyn datgelu hwn wedi'i baratoi yn seiliedig ar ddatganiadau penodol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, mewn perthynas â thrafodion partïon cysylltiedig.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau partïon cysylltiedig gan brif swyddogion ar gyfer 2024/2025 na 2025/2026.

Mae proses gadarn hefyd ar waith i gymeradwyo a chofrestru buddiannau busnes staff yr heddlu a swyddogion yr heddlu.

15. Buddion terfynu

Talwyd tri phecyn ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd) yn ystod 2025/2026 (2024/2025: 3).

Mae'r bandiau £0 - £20,000 a £20,001 - £40,000 wedi'u cyfuno er mwyn osgoi gallu nodi pecynnau ymadael unigol yn 2024/2025 a 2025/2026.

	2024/2025			2025/2026		
	Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt (ac eithrio diswyddiadau gorfodol)	Nifer y diswyddiadau gorfodol y cytunwyd arnynt	Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd a diswyddiadau gorfodol)	Nifer yr ymadawiadau y cytunwyd arnynt (ac eithrio diswyddiadau gorfodol)	Nifer y diswyddiadau gorfodol y cytunwyd arnynt	Cost ymadael (gan gynnwys taliad yn lle rhybudd a diswyddiadau gorfodol)
Band cost pecyn ymadael	Cyfwerth ag amser llawn	Cyfwerth ag amser llawn	£'000	Cyfwerth ag amser llawn	Cyfwerth ag amser llawn	£'000
£0 - £40,000	3.0	0.0	51	3.0	0.0	48
£40,001 - £60,000	0.0	0.0	0	0.0	0.0	0
£60,001 - £80,000	0.0	0.0	0	0.0	0.0	0
£80,001 - £100,000	0.0	0.0	0	0.0	0.0	0
£100,001 - £150,000	0.0	0.0	0	0.0	0.0	0
	3.0	**0.0**	**51**	**3.0**	**0.0**	**48**

16. Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio

Cyfranogiad mewn cynlluniau pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Prif Gwnstabl yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er nad yw'r buddion hyn yn daladwy nes bod gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Prif Gwnstabl ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

- Cynllun pensiwn llywodraeth leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin – mae hwn yn gynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi'u Hailbrisio (CARE), sy'n golygu bod y Prif Gwnstabl a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, wedi'i chyfrifo ar lefel a fwriedir i fantoli'r rhwymedigaethau pensiynau gydag asedau buddsoddi. Dylid nodi bod yr holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ond mae'r mwyafrif o'r staff o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl. Mae costau wedi'u dosrannu i adlewyrchu hyn.

- Cynllun Pensiwn yr Heddlu – mae hwn yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu cynllun Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi'u Hailbrisio (CARE), o ganlyniad nid oes gan y gronfa unrhyw asedau buddsoddi. Ariennir buddion sy'n daladwy gan gyfraniadau gan gyflogwyr a gweithwyr a thelir unrhyw wahaniaeth rhwng buddion taladwy a chyfraniadau derbyniadwy gan grant atodol gan y Swyddfa Gartref trwy'r Comisiynydd.

Prisio rhwymedigaethau'r cynllun

Fel rhan allweddol o'r ymarfer llunio datganiad o gyfrifon blynyddol, mae actiwarïaid yn cael eu cyflogi i gynnal asesiad o rwymedigaethau, asedau a chostau pensiwn i'w cynnwys yn y fantolen a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr o dan IFRS. Yn draddodiadol cynhaliwyd y rhain ar sail prisiad llawn bob tair blynedd gyda dull treigl ymlaen yn cael ei gymhwyso yn y blynyddoedd interim.

Trafodion sy'n ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth

Mae cost buddion ymddeoliad yn cael ei chydnabod yn nghost gwasanaethau a adroddir pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau yn y pen draw.

Mae'r costau hyn yn cael eu gwrthdroi o gyfrifon y Prif Gwnstabl i gyfrifon y Comisiynydd gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am ddal unrhyw gronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn fel trosglwyddiad o fewn grŵp a gellir ei weld yn y tabl canlynol:

	Cynllun pensiwn llywodraeth leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2024/2025 £'000	2025/2026 £'000	2024/2025 £'000	2025/2026 £'000
Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr				
Cost gwasanaethau				
Cost gwasanaeth presennol	(5,103)	(3,807)	(15,665)	(11,214)
Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys McCloud)	0	0	0	0
Arall	(135)	(182)	0	0
Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi				
Cost llog net	136	157	(50,657)	(53,140)
Cyfanswm y budd ôl-gyflogaeth a godwyd ar warged neu ddiffyg o ran darparu gwasanaethau	**(5,102)**	**(3,832)**	**(66,322)**	**(64,354)**
Budd ôl-gyflogaeth arall a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Ailfesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net yn cynnwys:				
Elw ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net)	(5,162)	5,345	0	0
(Ennill)/colli profiad	(138)	(1,121)	40	(5,670)
Enillion a cholledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau demograffig	373	1,808	1,724	(3,448)
Enillion a cholledion ailfesur yn deillio o newidiadau mewn tybiaethau ariannol	31,046	2,615	156,114	(57)
Addasiad gwarged IFRIC 14	(26,880)	(10,775)	0	0
Cyfanswm y budd ôl-gyflogaeth a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**(5,863)**	**(5,960)**	**91,556**	**(73,529)**
Costau comisiynu (trosglwyddo o fewn grŵp)	**5,863**	**5,960**	**(91,556)**	**73,529**
Cost net	**0**	**0**	**0**	**0**
Datganiad symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn				
Gwrthdroi taliadau net a wnaed i'r gwarged neu'r diffyg o ran darparu gwasanaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth yn unol â'r cod	0	0	0	0
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans y gronfa gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn				
Cyfraniadau cyflogwyr yn daladwy i'r cynllun	0	0	0	0

Mae trosglwyddiad o fewn grŵp wedi'i gynnwys yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl, gan nad yw'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am reoli cronfeydd wrth gefn.

Addasiad gwarged IFRIC

Roedd mantolen IAS19 yn dangos gwarged o £73.454 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Mawrth 2026.

Mae 'IFRIC14 - IAS19 – y cyfyngiad ar ased budd diffiniedig, isafswm y gofyniad cyllido a'u rhyngweithio' yn mynd i'r afael ag i ba raddau y gellir cydnabod gwarged IAS19 ar y fantolen ac yn nodi pan fydd gan endid warged, y bydd yn mesur yr ased buddion diffiniedig net fel yr isaf o'r canlynol:

a) Y gwarged yn y cynllun buddion diffiniedig;

b) uchafswm yr ased, a bennir gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt (IAS19).

Uchafswm yr ased yw "gwerth presennol unrhyw fuddion economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol".

Cyfrifwyd a phenderfynwyd bod angen addasiad i uchafswm asedau. Mae hyn er mwyn atal y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhag dangos ased sy'n eiddo i aelodau'r cynllun yn hytrach na'r cynllun ei hun. Mae rhwymedigaeth heb ei hariannu o £318,000 yn weddill (2024/2025: £310,000).

Roedd £71.765 miliwn o warged y cynllun pensiwn llywodraeth leol mewn perthynas â chostau cyflogaeth a ysgwyddwyd gan y Prif Gwnstabl (2024/2025: £57.567 miliwn) ac roedd £1.689 miliwn mewn perthynas â chostau cyflogaeth a ysgwyddwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (2024/2025: £1.281 miliwn).

Asedau a rhwymedigaethau pensiwn a gydnabyddir yn y fantolen

Mae'r rhan fwyaf o'r costau cyflogaeth yn cael eu hysgwyddo gan y Prif Gwnstabl, felly mae asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth yn aros yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.

Y rhwymedigaeth net sy'n deillio o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig:

2025/2026	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000	Cynllun Pensiwn yr Heddlu £'000	Cyfanswm £'000
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(165,055)	(952,066)	(1,117,121)
Gwerth teg asedau'r cynllun	238,509	0	238,509
Addasiad gwarged IFRIC 14	(73,772)	0	(73,772)
Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig (grŵp)	**(318)**	**(952,066)**	**(952,384)**
Swm i'w briodoli i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu	69	0	69
Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig (Prif Gwnstabl)	**(249)**	**(952,066)**	**(952,315)**

2024/2025	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol £'000	Cynllun Pensiwn yr Heddlu £'000	Cyfanswm £'000
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(158,180)	(922,630)	(1,080,810)
Gwerth teg asedau'r cynllun	217,028	0	217,028
Addasiad gwarged IFRIC 14	(59,158)	0	(59,158)
Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth buddion diffiniedig (grŵp)	**(310)**	**(922,630)**	**(922,940)**
Swm i'w briodoli i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu	18	0	18
Rhwymedigaeth net yn deillio o rwymedigaeth budd-daliadau diffiniedig (Prif Gwnstabl)	**(292)**	**(922,630)**	**(922,922)**

Cysoni'r symudiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun:

	Cynllun pensiwn llywodraeth leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2024/2025 £'000	2025/2026 £'000	2024/2025 £'000	2025/2026 £'000
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	**208,653**	**217,028**	**0**	**0**
Incwm llog	10,309	12,900	0	0
Elw/(colled) ailfesur - yr enillion ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y gost llog net	(5,286)	5,518	0	0
Cyfraniadau gan gyflogwr i'r cynllun	5,690	6,138	38,987	44,093
Cyfraniadau gan weithwyr i'r cynllun	2,208	2,397	7,360	7,816
Buddion a dalwyd	(4,411)	(5,290)	(46,347)	(51,909)
Arall (os yn berthnasol)	(135)	(182)	0	0
Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	**217,028**	**238,509**	**0**	**0**

Cysoni gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddion diffiniedig):

	Rhwymedigaethau wedi'u hariannu: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaethau heb eu hariannu: Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
	2024/2025 £'000	2025/2026 £'000	2024/2025 £'000	2025/2026 £'000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	**(178,496)**	**(158,180)**	**(1,053,173)**	**(922,630)**
Cost gwasanaeth presennol	(5,225)	(3,930)	(15,665)	(11,214)
Cost llog	(8,692)	(9,248)	(50,657)	(53,140)
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	(2,208)	(2,397)	(7,360)	(7,816)
Enillion / (colledion) ailfesur				
Enillion / colledion ailfesur sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	382	1,867	1,724	(3,448)
Enillion / colledion ailfesur sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	31,789	2,700	156,114	(57)
Enillion/colledion ailfesur sy'n deillio o brofiad	(141)	(1,157)	40	(5,670)
Buddion a dalwyd	4,411	5,290	46,347	51,909
Balans terfynol ar 31 Mawrth	**(158,180)**	**(165,055)**	**(922,630)**	**(952,066)**

Asedau cynllun pensiwn llywodraeth leol

Gwerth teg asedau'r cynllun (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)	2024/2025 £'000	2025/2026 £'000
Arian parod ac arian sy'n cyfateb i arian parod	1,953	1,475
Offerynnau ecwiti	157,259	164,998
Bondiau	19,923	22,699
Eiddo	22,658	30,977
Symiau eraill	15,235	18,360
Cyfanswm asedau	**217,028**	**238,509**

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau a rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol, sef amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar dybiaethau gan gynnwys cyfraddau marwolaethau a lefelau cyflog.

Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Pensiwn yr Heddlu wedi'u hamcangyfrif gan Mercer Limited, cwmni annibynnol o actiwariaid.

Y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yw:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Cynllun Pensiwn yr Heddlu	
Marwolaethau a rhagdybiaethau eraill	2024/2025	2025/2026	2024/2025	2025/2026
Hirhoedledd yn 65 oed (60 oed ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr presennol				
Dynion	21.5	21.2	25.6	25.7
Merched	23.9	23.6	28.2	28.1
Hirhoedledd yn 65 oed (60 oed ar gyfer cynllun yr heddlu) ar gyfer pensiynwyr y dyfodol				
Dynion	22.9	22.4	27.5	27.7
Merched	25.7	25.3	29.9	29.9
Tybiaethau eraill				
Cyfradd chwyddiant	2.6%	2.9%	2.6%	2.8%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	4.1%	4.4%	4.0%	4.3%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.7%	3.0%	2.7%	2.9%
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun	5.9%	6.3%	5.9%	6.1%

Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Heddlu wedi'u paratoi ar sail cyfartaledd pwysedig o'r grŵp cyfun o gynlluniau a ddefnyddir. Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i dybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi'u pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl i'r tybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd yn rhagdybio ar gyfer pob newid bod y dybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bod yr holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r tybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod

disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng i ddynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau yn rhai o'r tybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiadau sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Nid oedd y dulliau a'r mathau o dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn newid o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

	Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun	
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2025/2026	Cynnydd £'000	Gostyngiad £'000
Hirhoedledd (cynnydd o flwyddyn)	3,174	0
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.25%)	6,679	0
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.25%)	1,298	0
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.5%)	0	12,588

	Effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn y cynllun	
Cynllun Pensiwn yr Heddlu 2025/2026	Cynnydd £'000	Gostyngiad £'000
Hirhoedledd (cynnydd o flwyddyn)	19,508	0
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.25%)	34,720	0
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.25%)	4,594	0
Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau cynllun (cynnydd o 0.5%)	0	65,500

Cynllun Heddlu Llywodraeth Leol - Effaith ar Lif Arian Parod

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosibl. Mae'r grŵp wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel ariannu o 100% dros y tair blynedd nesaf. Cwblhawyd y Prisiad Actiwaraidd diweddaraf ar 31 Mawrth 2026, a dangosir manylion cyfraddau cyflogwyr presennol a rhai'r dyfodol isod:

Blwyddyn	Cyfradd cyflogwr
2027/2028	12.0%
2026/2027	12.0%
2025/2026	16.8%

Achosion cyfreithiol

Mewn perthynas ag achos pensiwn McCloud, mae hawlwyr wedi cyflwyno hawliadau am iawndal o dan ddwy set weithredol o ymgyfreitha: Aarons, a Penningtons. Setlodd adran gyfreithiol y llywodraeth yr hawliadau niwed i deimladau i Aarons ar ran prif swyddogion heb ofyn am unrhyw gyfraniadau ariannol. Mae setlo'r hawliadau niwed i deimladau ar gyfer Aarons yn gosod cynsail

defnyddiol, felly nid oes unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â hawliadau iawndal yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon hyn. Mae hawliadau am golled ariannol yn parhau i fod wedi'u hatal o dan gyngor gan gyfreithiwr, ond disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r hawliadau hyn yn cael eu setlo o dan y mecanwaith iawndal presennol a ddarperir o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddfeydd Barnwrol 2022. Ar 31 Mawrth 2026, nid yw'n bosibl amcangyfrif yn ddibynadwy faint na thebygolrwydd hawliadau Penningtons yn llwyddiannus, ac felly ni chydnabyddir unrhyw rwymedigaeth amodol mewn perthynas â hawliadau iawndal yn y cyfrifon hyn.

Rhwymedi McCloud

Rhedodd ffenestr rhwymedi McCloud rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Oherwydd y strwythurau buddion gwahanol, mae'r actiwari'n disgwyl i fwyafrif aelodau cymwys yr heddlu ddewis cymryd buddion y cynllun etifeddol (cynllun 1987 neu gynllun 2006) am y cyfnod unioni. Cafodd lwfans ar gyfer rhwymedi McCloud ei gynnwys gyntaf yn natganiadau pensiwn 2018/2019 fel cost gwasanaeth blaenorol am bedair blynedd o wasanaeth unioni rhwng 2015 a 2019. Priodolwyd y gost gwasanaeth blaenorol hwn yn gymesur i gynlluniau 1987 a 2006. Ar gyfer y blynyddoedd dilynol hyd at 2021/2022, gwnaed lwfans yng nghostau gwasanaeth 2015 ar gyfer croniad blynyddol gwasanaeth rhwymedi ychwanegol.

Fel rhan o ymarfer cyfrifyddu 2022, tybiodd yr actiwari y byddai aelodau cymwys yn dewis buddion cynllun etifeddiaeth, a gwnaeth rhwymedigaethau IAS19 lwfans bras ar gyfer hyn yn seiliedig ar y data aelodaeth a ddarparwyd. Mae hyn yn golygu bod holl rwymedigaethau McCloud yn cael eu dal o fewn y cynllun etifeddol y disgwylir i fuddion gael eu talu ohono.

Ar ôl cael y datganiad gwasanaeth adfer neu ar ymddeoliad, mae aelodau cymwys yn gallu dewis pa gynllun y maent am dderbyn buddion ohono.

O 31 Mawrth 2022 ymlaen mae pob aelod wedi cronni buddion cyfartaledd gyrfa yng nghynllun 2015, er bod yr aelodau gweithredol hynny sydd â gwasanaeth cynllun 1987/2006 cyn 31 Mawrth 2022 yn dal i gadw cyswllt cyflog terfynol ar y buddion hynny.

O ystyried bod y tîm gweinyddu bellach wedi gweithredu ateb McCloud (ar gyfer y rhan fwyaf o'r aelodau), ar gyfer 2025/2026 nid yw'r actwari wedi gorfod cymhwyso'r un lefel o frasamcan ag ar gyfer ymarfer 2022 o ystyried bod y data aelodaeth a ddarparwyd yn adlewyrchu'r ateb (e.e., buddion cyflog terfynol ar gyfer yr aelodau hynny sy'n gymwys hyd at 2022 lle bo'n berthnasol).

Effaith ar atebolrwydd pensiwn

Byddai caniatáu i bob aelod cymwys gronni buddion o'u cynllun etifeddol yn ystod y cyfnod unioni wedi arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu. I Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae hyn yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o'r rhai a ymunodd cyn 2012. Yn wreiddiol, amcangyfrifodd actiwariaid y cynllun fod y cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun yn 5.4% neu £85.5 miliwn o gyfanswm rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr heddlu o £1.589 biliwn. Cydnabuwyd hyn yng nghyfrifon 2018/2019 a 2019/2020.

Mae'r ffigurau cyfrifyddu a baratowyd wedi hynny dros y cyfnod hyd at 2025 yn cynnwys lwfans ar gyfer rhwymedi McCloud sy'n unol yn sylweddol â'r meini prawf cymhwysedd ac wedi tybio bod aelodau gwarchodedig yn cronni buddion yn eu cynlluniau etifeddiaeth ar hyn o bryd. Mae

ffigurau cyfrifyddu 2026 wedi'u seilio ar ddata aelodaeth a ddarparwyd gan y tîm gweinyddu sy'n adlewyrchu'r ateb fel y crybwyllwyd uchod. Felly, bydd y graddau y mae effaith amcangyfrifedig flaenorol McCloud yn wahanol i'r effaith wirioneddol yn dod i'r amlwg yn yr ailfesuriadau (profiad) sy'n dod i'r amlwg yn y ffigurau a baratowyd gan yr actiwari.

Mesurwyd effaith cynnydd mewn rhwymedigaethau cynllun yn deillio o ddyfarniadau McCloud/Sargeant ar gyfraddau cyfraniadau ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr fel rhan o werthusiad diwethaf Pensiwn yr Heddlu. Roedd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn 35.3% yn 2025/2026 (2024/2025: 35.3%).

Rydym yn aros am ganlyniadau gwerthusiad Pensiwn yr Heddlu 2024 ar hyn o bryd.

Mae effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniadau McCloud/Sargeant yn cael ei phennu drwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff heddlu gynnal cronfa bensiwn y telir cyfraniadau swyddogion a chyflogwr iddi ac allan ohoni y gwneir taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan Gronfa Bensiwn yr Heddlu ddigon o arian i dalu cost pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd yr ysgrifennydd gwladol yn talu'r swm sydd ei angen i setlo'r diffyg i'r Comisiynydd ar ffurf grant atodol llywodraeth ganolog.

17. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Ymchwiliad plismona cudd

Diben yr ymchwiliad hwn yw ymchwilio ac adrodd ar weithrediadau cudd yr heddlu a gynhaliwyd gan heddluoedd Cymru a Lloegr yng Nghymru a Lloegr ers 1968. Mae'r ymchwiliad yn archwilio'r cyfraniad y mae plismona cudd wedi'i wneud at fynd i'r afael â throseddu, sut y cafodd ei oruchwylio a'i reoleiddio a sut y caiff ei oruchwylio a'i reoleiddio, a'i effaith ar unigolion dan sylw – yn swyddogion heddlu ac eraill sydd/oedd mewn cysylltiad â nhw.

Mae rhwymedigaeth wedi'i sefydlu ac ynghyd ag un ar ddeg o heddluoedd eraill, mae cyfreithwyr allanol wedi'u cyflogi i gynrychioli swyddogion sy'n gwasanaethu. Mae cytundeb i Heddlu Dyfed-Powys dalu cyfran o 5% o'r costau paratoi generig yr eir iddynt gan y cwmni cyfreithiol ac mae'r holl gostau hyd yma wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon refeniw.

Ar hyn o bryd, nid yw'r ymchwiliad wedi mynd yn ddigon pell i amcangyfrif costau'r dyfodol yn ddibynadwy, felly nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn natganiadau cyfrifyddu 2025/2026.

Hawliadau cyfreithiol

Mae gan y Comisiynydd nifer fawr o hawliadau cyfreithiol posibl heb eu datrys ar ddyddiad y fantolen. Mae'r rhain yn ymwneud â materion sy'n codi yng nghwrs arferol busnes.

Yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys cyngor cyfreithiol lle bo'n briodol, mae'r Comisiynydd o'r farn nad oes unrhyw rwymedigaeth bresennol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cydnabod darpariaeth o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

Gan fod posibilrwydd o hyd y gallai costau godi yn y dyfodol, datgelir y materion hyn fel rhwymedigaethau amodol. Yr amcangyfrif o'r risg ariannol bosibl sy'n gysylltiedig â'r hawliadau

hyn yw tua £1,361,000. Mae amseriad a chanlyniad terfynol y materion hyn yn parhau i fod yn ansicr.

Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Mae nifer fach o weithwyr yn hawlio yn erbyn y Prif Gwnstabl mewn tribiwnlys cyflogaeth a fydd yn cael eu clywed yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn seiliedig ar ganlyniad yr achosion, gall fod yn rhaid i'r Prif Gwnstabl dalu'r holl hawliadau, rhai ohonynt neu ddim o gwbl, ac ar hyn o bryd ni ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy.

Geirfa termau

Tymor	Diffiniad
2025/2026	Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnod a gwmpesir gan y cyfrifon hyn - 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.
2024/2025	Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnod a gwmpesir at ddibenion cymharol gan y cyfrifon hyn – 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.
Polisïau cyfrifyddu	Set o reolau a chodau ymarfer a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon.
Croniadau	Y driniaeth gyfrifo, lle mae incwm a gwariant yn cael eu cofnodi pan gaiff ei ennill neu pan yr eir iddo nid pan fydd yr arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.
CIPFA	Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, un o'r cyrff cyfrifyddu proffesiynol yn y DU. Mae CIPFA yn arbenigo yn y gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am osod safonau cyfrifyddu ar gyfer y gwasanaethau hyn.
Comisiynu	Y cylch cyfan o asesu anghenion pobl mewn ardal leol, dylunio gwasanaethau, ac yna eu sicrhau.

Rhwymedigaethau digwyddiadol	Mae'r rhain yn bodoli lle:
	• bod rhwymedigaeth bosibl yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond gan un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y sefydliad; neu
	• mae rhwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol ond nid yw'n cael ei chydnabod oherwydd:
	  ○ nid yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, neu
	  ○ ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

Corfforaeth undyn	Endid cyfreithiol sy'n cynnwys un swydd gorfforedig ('undyn'), a feddiannir gan un dyn neu fenyw ('undyn'). Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ill dau yn gorfforaethau undyn o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.
Credydwyr	Unigolion neu sefydliadau y mae ar y Prif Gwnstabl arian iddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, wedi'u rhannu'n dymor byr (o fewn 12 mis) a hirdymor.
Asedau cyfredol	Eitemau y gellir eu trosi'n arian parod yn rhwydd. Yn ôl y confensiwn, mae'r eitemau'n cael eu harchebu trwy gyfeirio at ba mor hawdd yw trosi o'r fath yn arian parod.

Tymor	Diffiniad
Rhwymedigaethau cyfredol	Eitemau sy'n ddyledus ar unwaith neu yn y tymor byr.
Cost gwasanaeth cyfredol (pensiynau)	Amcangyfrif o wir gost economaidd cyflogi pobl mewn blwyddyn ariannol. Mae'n mesur y rhwymedigaeth lawn yr amcangyfrifir ei bod wedi'i chynhyrchu yn ystod y flwyddyn.
Cwtogi	Newidiadau mewn rhwymedigaethau sy'n ymwneud yn eu tro â chamau gweithredu sy'n rhyddhau'r cyflogwr o'r prif gyfrifoldeb am rwymedigaeth pensiwn (e.e. grŵp o weithwyr yn cael eu trosglwyddo i gynllun arall) neu ddigwyddiadau sy'n lleihau blynyddoedd disgwyliedig gwasanaeth gweithwyr yn y dyfodol neu'n lleihau croniad buddion diffiniedig dros eu gwasanaeth yn y dyfodol i rai gweithwyr (e.e. cau uned fusnes).
Dyledwyr	Unigolion neu sefydliadau y mae arnynt arian i'r Prif Gwnstabl ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, wedi'u rhannu'n dymor byr (o fewn 12 mis) a hirdymor.
Cynllun buddion diffiniedig	Cynllun pensiwn neu fuddiant ymddeol arall heblaw cynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel arfer, mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nid yw'r buddion yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun. Gall y cynllun fod wedi'i ariannu neu heb ei ariannu.
Gwerth teg	Y pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased, neu'r pris a delir i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur.
Offeryn ariannol	Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall. Mae offeryn ariannol deilliadol yn gontract ariannol sy'n deillio ei werth o newidiadau mewn asedau neu fynegeion sylfaenol.
IFRS	Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol.
IFRIC	Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.
Cyfrifon grŵp	Datganiadau ariannol y grŵp, h.y., y ddwy gorfforaeth undyn, wedi'u cyflwyno fel un endid economaidd.
Rhestrau eiddo	Symiau o stociau nas defnyddir neu nas defnyddiwyd a ddelir gan ddisgwyl eu defnyddio yn y dyfodol ar ddyddiad y fantolen.

Tymor	Diffiniad
Materoliaeth	Eitem a fyddai'n cael ei hystyried yn berthnasol i'r datganiadau ariannol pe bai ei hepgor neu beidio â'i datgelu yn golygu na fyddai'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg mwyach.
Cost llog net (Pensiynau)	Ar gyfer cynllun buddion diffiniedig, mae hyn yn digwydd yn ystod y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) yn codi o dreigl amser.
Cost gwasanaeth blaenorol	Ar gyfer cynllun buddion diffiniedig, mae'r rhain yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn y flwyddyn gyfredol, ond y mae eu heffaith ariannol yn deillio o flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach.
CHTh	Talfyriad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae'r CHTh yn gorfforaeth undyn ar wahân a sefydlwyd ar 22 Tachwedd 2012 o dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Cyfeirir ato hefyd fel Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh).
Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol	Deddf Senedd y Deyrnas Unedig a drosglwyddodd reolaeth heddluoedd o awdurdodau'r heddlu i gomisiynwyr heddlu a throseddu etholedig.
Mynegai prisiau manwerthu	Mesur swyddogol o lefel gyffredinol chwyddiant fel yr adlewyrchir ym mhris manwerthu basged o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys costau morgais, y dreth gyngor a chostau cartref eraill.
Cyllideb refeniw	Amcangyfrif o ofynion incwm a gwariant blynyddol, sy'n nodi goblygiadau ariannol polisïau a sail y praesept blynyddol i'w godi ar gronfeydd casglu.
Uwch-weithiwr	Gweithiwr y mae ei gyflog yn fwy na £150,000 y flwyddyn, neu weithiwr y mae ei gyflog o leiaf £60,000 y flwyddyn (a gyfrifir pro rata ar gyfer gweithiwr rhan-amser) ac sy'n bennaeth dynodedig gwasanaeth cyflogedig ac yn brif swyddog statudol. Yn nodweddiadol, prif weithredwr a phrif swyddogion statudol y Comisiynydd.
Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (y Cod)	Yn ymgorffori canllawiau yn unol â Safonau Cyfrifyddu y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, IPSAS a GAAP y DU. Mae'n nodi'r arferion cyfrifyddu priodol i'w mabwysiadu ar gyfer y datganiad o gyfrifon er mwyn sicrhau eu bod yn 'cyfleu sefyllfa ariannol y grŵp yn deg'. Mae gan y cod statws statudol drwy ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 2003.